ECO'R WYDDFA

Rhif 235 MEHEFIN 1997 Pris 30c

# £70,000 i Antur Waunfawr

**Llwyddodd Antur Waunfawr i ddenu nawdd o dros £70,000 o gronfa loteri Cyngor Celfyddydau Cymru i addasu Tŷ Capel Bethel, Waunfawr, yn ganolfan ddehongli a chrefftau ac amgueddfa fechan.**

Mae'r Antur yn falch iawn o dderbyn yr arian. Eu bwriad yw datblygu Tŷ Capel Bethel, sydd yng nghanol pentref Waunfawr, gan greu canolfan aml-bwrpas ar gyfer trigolion yr ardal a fydd yn hwb i ddiwylliant a'r economi lleol.

Y llynedd llwyddodd Antur Waunfawr i brynu'r Tŷ Capel a gwneud gwaith paratoadol arno drwy haelioni y Lankelly Trust a chwmni perianwyr sifil Laing. Bydd yr arian yma yn eu galluogi i adnewyddu ac addasu'r Tŷ Capel gan greu nifer o stafelloedd pwrpasol ynddo. Bydd yno ystafell ddehongli fydd yn gysylltiedig â'r parc natur wyth acer sydd ar y safle, ac yn galluogi ysgolion, myfyrwyr, grwpiau ac unigolion i astudio a dehongli byd natur a'r amgylchedd lleol. Sefydlir ystafell grefftau i ehangu'r amrywiaeth o grefftau a gynhyrchir gan weithwyr yr Antur a gobeithir sefydlu Cylch Crefftau i wahodd unigolion yma i gyfrannu eu crefft a'u sgiliau traddodiadol trwy weithdai.

Sefydlir hefyd amgueddfa fechan yn y Tŷ Capel i gofnodi a dathlu hanes lleol, megis darllediad radio cyntaf Marconi; a John Evans — brodor o'r Tŷ Capel — a hwyliodd i America yn y ddeunawfed ganrif i chwilio am Indiaid y credid oedd yn siarad Cymraeg. Ef oedd yn bennaf gyfrifol am ddilyn taith a chreu mapiau o'r afon Missouri a chredir fod Arlywydd Jefferson wedi prynu Louisiana yn sgîl y gwaith mapiau a wnaeth John Evans gan ddyblu maint America ar y pryd.

Bwriedir sefydlu canolfan adnoddau swyddfa modern mewn un ystafell yn y Tŷ Capel fydd yn cynnwys cyfrifiaduron, mynediad i'r Wê Fyd Eang, llungopïwr, ffacs a mwy, i gyd at ddefnydd y gymuned leol.

Bydd gweithwyr Antur Waunfawr ag anawsterau dysgu yn gwasanaethu'r ganolfan fel rhan o'u gwaith.

*'Mae'r newyddion ein bod wedi llwyddo i ddenu'r arian gan y Cyngor Celfyddydau yn newyddion rhgorol a gwych,'* meddai Gwynn Davies, Cadeirydd Antur Waunfawr. *'Fe fydd y ganolfan newydd yn Nhŷ Capel o fudd mawr i'r gymuned a'r ardal.'*

# Cau'r Ocsiwn ac Agor Amgueddfa



*Mr Hugh R. Jones a'i fab Elwyn sy'n parhau'r cysylltiad teuluol â'r Amgueddfa. Mae Elwyn ar staff yr Amgueddfa ers rhai blynyddoedd, ac yn ystod y dathliadau bu'n cynnal sesiynau castio pres yn y ffowndri.*

**Mae Amueddfa Lechi yn y Gilfach Ddu, Llanberis wedi bod yn brysur yn dathlu ei phen-blwydd yn 25 oed yn ddiweddar. Cynhaliwyd parti pen-blwydd yno ddydd Sul, Mai 25, ac un o'r gwesteion oedd Mr Hugh Richard Jones. Mae'n debyg na fyddai'r amgueddfa yn bodoli o gwbl onibai amdano ef, gan mai ef oedd yn bennaf gyfrifol am godi'r syniad o leoli amgueddfa yma pan gaewyd y Chwarel.**

Treuliodd Hugh Richard Jones ei holl yrfa yn y Chwarel. Dechreuodd weithio yn y Gilfach Ddu fel prentis o beiriannydd cynnal a chadw yn 1926 pan oedd yn bymtheg oed. Mae'n cofio'r cyfnod yn dda. Gweithiai am ddim am y chwe mis cyntaf. Yna câi gyflog o chwe cheiniog y dydd am chwe mis. Wedi hynny câi godiad cyflog o swllt y dydd am bob blwyddyn o'r brentisiaeth. Ar y pryd roedd yn byw ym Mhontrhythallt, a byddai'n teithio i'r gwaith ar y trên chwarel. Cychwynnai o'r tŷ am chwech y bore a dod adref am chwech yr hwyr.

Iard y Gilfach Ddu oedd un o'r llefydd gorau i ddysgu crefft gan fod cymaint o wahanol fathau o waith a pheiriannau yn y chwarel. Roedd cymaint â 21 o beiriannau stêm yn rhedeg ar hyd y ponciau, a chryn waith cynnal a chadw arnynt wrth gwrs. Un o'r injans hynny yw UNA a welir erbyn hyn yn yr Amgueddfa. Bu Hugh R. Jones yn gyfrifol am adnewyddu'r injan hon wedi i'r Chwarel gau.

Caewyd y Chwarel ym mis Gorffennaf 1969. Roedd hynny'n siom a dychryn i'r gweithwyr a'r ardalwyr. Daeth y cyfan i ben yn ddirybudd, ac aed ati'n fuan iawn i werthu llawer o'r offer a'r peiriannau. Er bod y rhan fwyaf o'r gweithwyr wedi colli eu swyddi dros nos, cafodd rhai aros am rai wythnosau i ofalu am y gwaith o roi trefn ar bethau.

Yr oedd Hugh R. Jones, a oedd erbyn hynny yn brif beiriannydd y Chwarel, yn un o'r rhain, a gwelodd y derbynnydd a'r arwerthwr yn prisio'r peiriannau a'r celfi. Roedd gweld popeth wedi ei rifo ar gyfer yr ocsiwn yn loes calon iddo ef ac eraill a dreuliodd eu hoes yn gweithio yn y Chwarel. Teimlai bod rhaid gwneud rhywbeth i arbed gwared â'r holl offer hwn. Llwyddodd i ennyn diddordeb y wasg yn yr hyn oedd yn digwydd, gan dynnu sylw at y ffaith bod llawer o'r peiriannau i'w gwerthu fel sgrap. Mentrodd awgrymu y gellid sefydlu amgueddfa ar y safle, a llwyddodd i ennyn cydymdeimlad yr arwerthwr â'r fath syniad. Llwyddwyd wedyn i berswadio'r derbynnydd i ohirio'r ocsiwn. Clöwyd drysau'r Gilfach Ddu a gadael y safle er mwyn cael amser i drafod y dyfodol.

Cysylltodd Hugh R. Jones wedyn â Chyngor Arfon a'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd, ac ag Adran yr Amgylchedd yn Llundain. Wedi hir drafod penderfynwyd sefydlu amgueddfa yn y Gilfach Ddu. Cyngor Arfon fyddai'n prynu'r adeiladau a'r tir; Adran yr Amgylchedd fyddai'n gofalu am yr adeiladau; a'r Amgueddfa Genedlaethol fyddai'n gofalu am yr amgueddfa newydd. Cafodd Mr Jones ei gyflogi am flwyddyn gan y Cyngor i ofalu am fuddiannau'r Cyngor, gan gynnwys Parc Padarn a hen Ysbyty'r Chwarel. Yn 1971 penodwyd ef gan yr Amgueddfa Genedlaethol i ofalu am yr amgueddfa yn y Gilfach Ddu. Wedi llawer o waith paratoi agorwyd yr Amguedfa Lechi yn swyddogol yn 1972 a chafodd rhai o gyn-weithwyr y Chwarel waith i dywys yr ymwelwyr ac esbonio gwaith y

*(Parhad ar dudalen 16)*

**CYFARFOD BLYNYDDOL ECO'R WYDDFA**

**yn YSGOL BRYNREFAIL, LLANRUG**

**NOS FAWRTH 10 MEHEFIN 1997**

**am 7 o'r gloch**

**DEWCH YN LLU**

**EICH PAPUR CHI YDI O!**

# ECO'R WYDDFA

Rhif 235

MEHEFIN 1997

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*



**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

Golygyddol:
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**DYDDIADUR Y MIS**
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

**DATBLYGU LLUNIAU**
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi, Bangor (01248) 353337 neu 871925

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)

**TREFNYDD BWNDELU**
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug (673696)

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)

**TREFNYDD PLYGU**
Shioned Griffith (650570)

**GOHEBWYR PENTREFI**
**Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd.**

**BETHEL**: Geraint Elis, Cilgeran (01248 670726)
**BRYNREFAIL**: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO**: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT**: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO**: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DEINIOLEN**: W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
**DINORWIG**: Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Dinorwig (870576)
**LLANBERIS**: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
**LLANRUG**: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS**: Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)
**PENISARWAUN**: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED**: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR**: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


**Y RHIFYN NESAF**

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**NOS IAU, MEHEFIN 26**

Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
**NOS LUN, MEHEFIN 16**

Os gwelwch yn dda

# DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

**Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570**

| RHIFYN | DYDDIAD PLYGU | BLE? | CYSYLLTU Â | RHIF FFÔN |
|---|---|---|---|---|
| MEHEFIN | MAI 29 | BRYNREFAIL | Mrs L. P. Roberts-Williams | 870580 |
| GORFFENNAF | MEHEFIN 26 | BETHEL | Mr Geraint Ellis | (01248) 670726 |
| AWST | – | – | – | – |
| MEDI | MEDI 4 | DINORWIG | – | – |
| HYDREF | HYDREF 2 | PENISARWAUN | Mrs Ann Evans | 872407 |
| TACHWEDD | HYDREF 30 | LLANBERIS | Mr Gwilym Evans | 872034 |
| RHAGFYR | TACHWEDD 27 | CAEATHRO | Mr Clive James | 677438 |

**MAE CAMERÂU YR ECO AR GAEL GAN Y CANLYNOL:**
BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (01248) 670115
WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (01286) 650556
DEINIOLEN: Valmai Williams, Hafle, 2 Rhes y Faenol (01286) 871174
LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (01286) 872390

# *Llythyrau*

## Trychineb Trip Dinorwig

Annwyl Olygydd,

Rwyf wedi bod wrthi ers tro yn casglu deunydd i gofio am y drychineb ym Mhwllheli ar Sadwrn, Gorffennaf 1, 1899, pan foddwyd deuddeg (naw o blant) wrth i gwch ddymchwel. Digwyddiad hynod drist oedd hwn ar ddiwrnod trip Ysgol sul. Ar nos Iau, 1 Gorffennaf 1999, cynhelir gwasanaeth yn Eglwys Crist Llandinorwig i gofio can mlynedd ers y drychineb ac i ddwyn allan lyfryn yn dweud yr hanes trist. Os oes gan unrhyw un atgofion, lluniau, ac ati, yn ymwneud â'r drasiedi hon buaswn yn falch iawn o glywed gennych. Balch fyddwn hefyd o ddod i wybod am ddisgynyddion y rhai a foddwyd. Cysylltwch â mi.

Gyda diolch,

IDRIS THOMAS
Y Rheithordy, Trefor, Caernarfon
(01286) 660547

## TYSTEB

Annwyl Ddarllenwyr,

Fe wyddoch, mae'n siŵr, fod Dirprwy-brifathrawes Ysgol Gynradd Bethel, Mrs Lowri Prys Roberts Williams, yn ymddeol ar ddiwedd tymor yr haf.

Mae Mrs Roberts Williams wedi bod yn athrawes yn yr ysgol am gyfanswm o 29 mlynedd. Fel gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth i blant Bethel mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu tysteb iddi.

Os dymunwch gyfrannu tuag at y dysteb a fyddwch cystal ag anfon eich cyfraniadau ataf fi, neu Mr Pierce y prifathro, yn yr ysgol. Bydd pob cyfraniad, beth bynnag fo'r swm, yn cael ei dderbyn gyda gwerthfawrogiad.

Bwriedir cyflwyno'r dysteb iddi ar ddiwedd noson yr Helfa Drysor a drefnir gan y Gymdeithas yn nes at ddiwedd y tymor.

Yn gywir iawn,

GWYN WILLIAMS
Cadeirydd
Cymdeithas Rhieni / Athrawon
Ysgol Gynradd Bethel, Caernarfon

## DRAENOG

**Aeth aelodau'r Gymdeithas Lenyddol ar daith ddirgel o Fethel i Sir Fôn. Cyrhaeddwyd gwesty yng nghyffiniau Amlwch a chael pryd o fwyd yno. Cododd y gweinidog oddi wrth y bwrdd ac allan a fo trwy'r drws . . . a ffeindio'i hun mewn cwpwrdd yn hytrach nag yn y stafell nesaf.**

**APÊL O FETHEL**

**Bentrefwyr, dowch yn llu i'r Neuadd Goffa**
**NOS IAU, 26 MEHEFIN**
**i helpu i blygu'r rhifyn nesaf o'r Eco.**

**ER MWYN CYNNAL ECO'R WYDDFA YN BAPUR BRO DIDDOROL ANFONWCH HANESION A STORÏAU I'R ECO**



*Rhai o gystadleuwyr ifanc Eisteddfod Llanberis. Mae mwy o luniau ar dudalen 15.*

# CYFARFOD BLYNYDDOL *ECO'R WYDDFA*

**yn YSGOL BRYNREFAIL, LLANRUG**
**NOS FAWRTH, 10 MEHEFIN 1997**
**DOWCH YN LLU — I DDWEUD EICH DWEUD AM EICH PAPUR CHI**


# Dafydd Du ar y Brig

Cynhaliwyd Seremoni Blynyddol Ffocws yn Aberystwyth yn ystod y mis. Seremoni yw hon sy'n cael ei noddi gan TDK i gydnabod rhaglenni radio gorau'r flwyddyn. Dewisir y goreuon gan banel o arbenigwyr.

Y rhaglen ddaeth i'r brig yng nghategori 'cerddoriaeth boblogaidd' oedd rhaglen Dafydd Du — 'Ram Jam Sadwrn'. Darlledir y rhaglen boblogaidd hon yn fyw rhwng 10 a 12 o'r gloch bob bore Sadwrn ar Radio Cymru. Cynhyrchydd y rhaglen yw Huw Llywelyn. Derbyniodd y rhaglen y brif wobr hefyd yng nghategori 'y jingl orau'.

Cafodd Dafydd Du ei fagu ym mro'r Eco. Fe'i bedyddiwyd yn Dafydd Meredydd Jones ond cafodd ei lasenwi yn Dafydd Du (anwybyddwyd y treiglad meddal!) gan ei gyfoedion yn Ysgol Brynrefail ar sail ei bryd tywyll. Parhaodd y glasenw i'w ddilyn i Goleg y Brifysgol Aberystwyth lle y graddiodd mewn Ffiseg.

Er mai fel ymchwilydd a



chyflwynydd materion gwyddonol y cychwynnodd ei yrfa yn y BBC aeth cerddoriaeth ysgafn/fodern a'i fryd ac yn awr mae'n un o brif gynhyrchwyr a chyflwynwyr yn y maes arbenigol hwn.

Mae'n fab i Carys ac Arwel Jones, Cae Eboni, Penisarwaun.

## CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanddeiniolen am 1997-98 yw Einir Gwyn, Brynrefail, a'r Is-gadeirydd yw Dafydd Morris, Deiniolen. Etholwyd y Cynghorwyr Len Jones, Deiniolen; Keith B. Jones, Brynrefail; a Dafydd Morris, Deiniolen i gynrychioli'r Cyngor ar Weithgor Peris.

Roedd y Cyngor yn llawenhau fod Pwyllgor Amgylchedd Arfon wedi penderfynu awdurdodi Ysgrifennydd a Chyfreithiwr y Sir i ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dynnu yn ôl y gorchymyn gwyr ar lwybr Cae Goronwy, Fachwen ar y sail nad yw'r Cyngor yn cefnogi'r gwyriad am ei fod yn anaddas. Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn edrych ar y sefyllfa gyfreithiol ynglŷn â diogelwch y cyhoedd gan fod arwyddion wedi eu gosod sy'n cyfarwyddo cerddwyr oddi ar y llwybr cyhoeddus i lwybr preifat. Mae'r Cyngor Cymuned yn hynod o ddiolchgar i nifer helaeth o drigolion y fro a fu'n gefnogol iddynt yn eu hymdrech i atal y gwyriad.

Roedd y Cyngor yn ddiolchgar i'r heddlu am y ffordd y bu iddynt ddelio â'r 'Rêf' a fu ger Marchlyn ddechrau'r mis. Bydd aelod o'r heddlu yn bresennol yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor a gynhelir yn Neuadd Gymuned Penisarwaun, 8 Gorffennaf.

Mae'n amhosibl i'r Cyngor ofyn i Antur Waunfawr osod biniau casglu defnyddiau i'w hail-gylchu er y Siop Gig ym Methel, gan nad yw'r safle'n addas yn unol â gofynion y gyfraith.

Cafodd y Cyngor wybodaeth gan Gyngor Gwynedd nad yw'r arwydd *'Give Way / Ildiwch'* yn arwyddion swyddogol ar hyn o bryd er bod y Swyddfa Gymreig wedi cytuno iddynt gynnal arbrawf gydag arwyddion o'r fath yn ardal Dwyfor. Yn ddibynnol ar y canlyniadau fe fydd Cyngor Gwynedd yn awyddus i ddefnyddio'r math yma o arwydd drwy'r sir, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.

# Llygredd Llyn Padarn

Mae'n siŵr na fyddai neb yn anghydweld mai Llyn Padarn yw un o berlau tlysaf ein bro, felly fe ddylid gwneud popeth i warchod ei ddyfroedd. Faint ohonoch sy'n cofio haf 1992 pan ddaeth lliw gwyrdd annaturiol i'r llyn. Problem gormod o *phosphates* yn cael eu harllwys o waith carthffosiaeth Llanberis oedd yr achos.

Cafwyd adroddiad gan Brifysgol Bangor yn egluro os na fyddai rhywbeth yn cael ei wneud i roi terfyn ar hyn fe fyddai'r llyn, ymhen amser, yn troi yn *Eutrophic* a thrwy hynny byddai'r torgoch a'r brithyll brown yn araf farw allan. Rydym wedi gweld yr *Eutrophication* yma yn dechrau drwy i'r pysgod fod yn drymach nag oeddynt ddeng mlynedd yn ôl.

Mae corff a adnabyddir fel yr *Anglers Conservation Association* yn gweithredu dros glybiau pysgota ar achosion fel hyn ac atynt hwy y bu'n rhaid troi. Diwedd y gân oedd i'r ACA dynnu achos yn erbyn Dŵr Cymru am lygru'r llyn ac afon Seiont. Daeth hyn o flaen y Llys Sirol yng Nghaernarfon yn ystod Mawrth '95. Yn anffodus, methiant fu'r achos, ond fe wnaeth i Ddŵr Cymru adeiladu *Phosphate Stripping Plant* yng ngwaith carthffosiaeth Llanberis. Rhoddodd Asiantaeth yr Amgylchedd amodau llym am faint o'r *phosphates* hyn a ganiateid i'w harllwys o Fawrth '95 ymlaen.

Yn ystod y misoedd dilynol roedd yn wir dweud fod gwelliant sylweddol yn ansawdd y dŵr a mawr oedd y clod am hyn. Ond, ymhen ychydig amser wedyn gwelwyd fod y safon yn gostwng drachefn — a heddiw, ar ôl cael copi o gofnodion arbrofion arllwysion gan Asiantaeth yr Amgylchedd, daeth ar ddeall fod gwaith Llanberis wedi methu â chyrraedd y safon penodedig drwy '96 — a rhai o'r safonau yma yn ddifrifol. Mae deddfau gwlad yn llym iawn ynglŷn â throseddau o'r fath ond hyd yn hyn mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gwrthod dwyn achos yn erbyn Dŵr Cymru ac mae'r llygru'n cario ymlaen.


Un llais sydd i'w glywed yn ymladd yn erbyn hyn, sef llais y Clwb 'Sgota. Does dim smic i'w glywed gan fudiadau Llanberis, sydd gyda'r mwyaf i'w golli pe byddai Llyn Padarn yn cael ei ddinistrio'n llwyr — tarwch eich golygon drosodd tua'r Bala i weld be sy'n mynd ymlaen yno.

Does dim llawer iawn yn ôl ers i Lyn Padarn gael ei wneud yn ardal o ddiddordeb gwyddonol arbennig (S.S.I.) gan y Comisiwn Cefn Gwlad — ac un o bwyntiau pwysicaf y ddogfen yma yw i warchod y torgoch — nid oes yr un smic i'w glywed gan y Comisiwn am y broblem hon. Os na allwn gael safon iawn i arllwysion Llanberis yna y torgoch fydd y cyntaf i fynd. Gobeithio, ar ôl darllen y braslun yma, y bydd tipyn o gwestiynau yn cael eu gofyn gan fudiadau a thrigolion Llanberis i'r awdurdodau, sef Asiantaeth yr Amgylchedd, Dŵr Cymru a'r Cyngor lleol.

Wrth weld dechrau Mehefin câf, o'r diwedd, ddechrau ymchwilio afon Seiont am fy hoff ddileit, sef y sewin. Prin iawn yw'r nifer wedi bod ers tymhorau ond yn ystod '96 cefais un neu ddau da o Lyn Doctor. Gobeithiaf yn arw weld mwy yn rhedeg yr afon gan fod adroddiadau da yn dod o fae Caernarfon am y nifer sy'n dangos yn y llanw.

Ar afon Llyfni, yn ffodus, nid oes prinder sewin a chyda phryniant rhan o lyn Nantlle fe fydd yn bosib i'r aelodau gael pysgota am sewin ac eog oddi ar gychod — mae'r Gymdeithas yn mawr obeithio y bydd y fenter yma yn llwyddiannus, ac os cawn weld y cynlluniau sydd ar y gweill i ddatblygu pysgodfeydd Dyffryn Nantlle yn cael ei gwblhau, bydd yma un o bysgodfeydd gorau'r wlad — yma ar ein trothwy. Mae rhai yn dweud ein bod yn rhy uchelgeisiol ond, ar fy rhan fy hun, rwy'n credu yn gry fod yn rhaid dilyn y weledigaeth. Diolch fod llawer un arall wedi cael yr un freuddwyd — neu fe fyddem heb ddim.

HUW P. HUGHES



*Torgoch a ddaliwyd yn Llyn Padarn yn ystod mis Awst 1996. Ond am ba hyd fydd y torgoch yn Llyn Padarn gyda'r llygru presennol?*


TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT
Lynette Evans
GARNET, LLANRUG
Ffôn: 673981/675807

GWASANAETH TACSI
HURIO BWS MINI
CABS LLANRUG
Ffôn: (01286)
675951
Prisiau Cystadleuol – Gwaith Contract – Pell ac Agos

CARPEDI GERAINT OWEN
GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCH UNRHYW AMSER:
WAUNFAWR (01286) 650552

# CHWILOTA



## ENWAU HEN ADFEILION

**Yn achlysurol bydd ambell un yn holi ar y stryd am ryw adfail neu'i gilydd. *'Mae 'na hen gwt, ne' sgubor, ne' rwbath yn y cae yn fan ar fan. Wyddost ti rywfaint o'i hanas?'* Ia, y 'ne rwbath' sy'n achosi'r broblem bob amser. Gall yn hawdd fod yn hen adfeilion, ond gall hefyd fod yn dwr o gerrig wedi eu casglu gan ffermwr flynyddoedd yn ôl a'u gadael yng nghongl cae.**

Sut mae hi'n bosib penderfynu adfeilion beth ydynt? Heb arbenigedd archaeolegwr rhaid dechrau drwy astudio hen fapiau, gan gychwyn gyda mapiau Ordnans (O.S.) cynnar, yna ymlaen (neu'n ôl mae'n debyg!) i Fap y Degwm, a gobeithio fod rhai o hen fapiau Stad ar gael am yr ardal. Rydym yn ffodus yn ein hardal ni. Mae Mapiau Stad y Faenol ar gael o tua 1777 a Map o Stad Plastirion ar gael o tua 1814. Yna daw Mapiau'r Degwm (1840) — yn rhestru pob cae ac enw ym mhlwyf Llanrug, ond nid felly yn Llanddeiniolen. Mae hefyd Fapiau'r Ordnans ar gael o ddiwedd y ganrif ddiwethaf. Dyna ddigon o lefydd i chwilota am union safle unrhyw adfail. Mae enwau i'w cael wrth gwrs mewn dogfennau llawer hŷn, ond yn anffodus, nid yw bob amser yn bosibl eu lleoli.

Problem arall sy'n wynebu'r chwilotwr yw'r ffaith nad yw'r mapiau bob amser ar yr un raddfa, a thros gyfnod o flynyddoedd mae'r tirwedd yn sicr o newid oherwydd effeithiau pobl. Ambell dro bydd caeau yn cael eu cyfuno; dro arall bydd llwybr troed wedi ei ledu i greu ffordd a siâp y caeau o bobtu wedi eu newid. Mae enwau hefyd yn newid — a hynny'n aml heb unrhyw reswm gweladwy dros wneud hynny. Ond mae enwau eraill yn aros er nad ydynt yn gwneud fawr o synwyr erbyn heddiw.

Mae 'Celli' neu 'Y Gelli' yn golygu llwyn o goed ac nid o reidrwydd yn goed cyll. Ac nid olion o hen arfer Cymreig o dyfu grawnwin a geir yn yr enw 'Y Winllan' 'chwaith! Er fod 'Llys' yn awgrymu palas o le, yr ystyr gwreiddiol iddo oedd gwrych o ddrain o amgylch cartref. Roedd 'Grofft' neu 'Yr Offt' yn golygu darn o dir wedi ei gau er mwyn ei drin — yr un ystyr â 'croft', sef tyddyn yr Alban. Nid yn hollol yr un fath â'r 'tyddyn' yng Nghymru, a oedd yn ôl cyfreithiau Hywel Dda yn lle i godi adeilad gydag wyth erw o dir o'i gwmpas. Dyma a gâi'r mab ieuengaf fel arfer ar farwolaeth y tad. Roedd 'hwylfa' ar y llaw arall yn nodi un o dri hawl mynediad i holl drigolion gwlad. Yr hawl gyntaf oedd 'droetlwybr i'r eglwys'. Yn ail, roedd 'hwylfa i'r ddyfrfa', ac yn olaf yr 'hwylfa i'r diffaith cyffredin', sef y tir comin. Roedd yr olaf fel arfer yn saith troedfedd o led, a datblygodd yn lôn drol dros y blynyddoedd. Dyna roes inni'r enwau Rhos yr Hywlfa a Phen yr Hwylfa yn ardal Seion, Llanddeiniolen. Enwau eraill yn cyfeirio at ddarnau bychan iawn o dir oedd 'dryll', 'llain', 'sling', 'clwt', a 'sinach'. Rhyw gongl diwerth yn aml oedd 'sinach'; dyna pam y defnyddiwyd y term i ddisgrifio pobl o'r un cymeriad!

Ond, i ddychwelyd at yr adfeilion cerrig sy'n nodi hen gartrefi neu hen feudai. Rhaid cofio fod adfeilion yn bod pan ddechreuwyd ffurfio rhai o'r mapiau stad cyntaf. Ar y ffordd o'r Ceunant i Bontrug, ac ar dir Cae Hoedyn roedd cae o'r enw 'Cae Murddyn Iago'. Fe'i cofnodir felly yn Arolwg Stad y Faenol yn 1777, ond erbyn Map y Degwm (1840) roedd yr enw wedi diflannu ac enw'r cae bryd hynny oedd 'Cae Hoedyn'. Mae'n ymddangos fod rhywrai yn 1777 yn cofnodi enw ar le a oedd eisoes yn adfail, ac i'r cof am yr adfail hwnnw ddiflannu o fewn yr hanner can mlynedd nesaf.

Cyffredin iawn ers talwm oedd odyn i losgi calch ar gyfer y tir. Aml iawn felly y ceir enwau megis 'Llain yr Odyn' neu 'Buarth yr Odyn' yn enwau ar gaeau nifer helaeth o ffermydd y fro. Dichon mai olion yr hen odynau yw llawer o'r adfeilion a geir yma ac acw. Doedd y 'sgubor a'r beudy ddim bob amser wrth ymyl y ffermdy 'chwaith, a cheir 'Cae 'Sgubor' neu 'Cae Beudy' yn aml — a dyna bosibilrwydd adfeilion eraill mewn amser.

Diddorol fyddai cael ymateb rhai o ffermwyr y fro. Ydi'r hen enwau ar gaeau yn parhau i gael eu defnyddio? Oes yna adfeilion 'rwbath'! ar eich tir chi — ac a wyddoch chi adfeilion beth ydynt? Anfonwch air ac o bosib gallwn eu cymharu efo rhai o'r enwau gwreiddiol yn y mapiau Stad neu Fap y Degwm.

Gyda llaw, un pôs bach cyn cloi: Ar ba fferm ym mhlwyf Llanddeiniolen y mae enw i bob cae, ond na ddefnyddir y gair 'cae' o gwbl fel rhan o'r enw? Ateb y mis nesaf.

### COLLI CYFRANNWR

Daeth y newydd trist yn ystod y mis am farwolaeth Elwyn Jones, Dunstable. Roedd o'n ddarllenwr brwd o'r *Eco*, yn enwedig y golofn hon, ac yn ymateb yn gyson i wahanol ymholiadau am ardal Llanrug — bro ei febyd. Deuai ar y ffôn yn eithaf rheolaidd i drafod rhywbeth yn y golofn, a'i eiriau wrth gloi'r sgwrs bob tro fyddai: *'Mi sgwenna'i rhyw bwt o nodyn i ti.'* Ac fe gadwai at ei air. O fewn deuddydd neu dri byddai llythyr yn cyrraedd gan gadarnhau popeth a ddywedwyd ar y ffôn ac yn ychwanegu hefyd, *'y petha nes i anghofio'u deud wrtha ti.'* Mae ffeil llythyrau cyfrannwyr 'Chwilota' yn eithaf trwchus erbyn hyn a dogn dda ohonynt wedi eu sgwennu gan Elwyn Jones. Yn eu plith hefyd y mae nifer dda o luniau a anfonai yn achlysurol. Doedd o ddim am i mi eu dychwelyd — *'Mi fyddan nhw fwy o werth i ti.'* Roedd o'n hynod falch o weld ei sylwadau'n cael eu cyhoeddi ym mhapur bro ei febyd.

Yn ystod y flwyddyn fe'i etholwyd yn Gynghorydd Llafur ar Gyngor Tref Dunstable — buddugoliaeth i'r Blaid Lafur am y tro cyntaf ers oesoedd yn hanes y Cyngor hwnnw, a rhagflas o'r hyn oedd i ddod yn yr Etholiad Cyffredinol. Roedd Elwyn Jones yn hynod falch o'r anrhydedd o gael cynrychioli etholwyr ei dref fabwysiedig. Anfonodd gerdyn swyddogol i mi gydag arfbais y Cyngor Tref arno, a'i enw yntau wedi ei argraffu odditano. Ond ar y cefn fe sgwennodd: *'Dyna iti posh!'*

Mae'n chwith meddwl na ddaw galwad o Dunstable eto yn holi am y teulu ac yn *'cofio at bawb yn Llanrug'*. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

* * *

Anfonwch air neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: (01286) 673515.


I drin a thrwsio pob math o beriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01248) 714043 neu (01286) 674520
Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

FFENESTRI PADARN
FFENESTRI A DRYSAU uPVC
Cynnig 1: 3 FFENEST WEDI EU FFITIO AM £600
Cynnig 2: 5 FFENEST WEDI EU FFITIO AM £895
Cynnig 3: 7 FFENEST WEDI EU FFITIO AM £1,295




(01286) 871774

Gwesty Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

## 'Un funud fach . . .'

### TIWNAR

Does dim modd i ni yn yr ardal hon dderbyn lluniau Sianel 5, y sianel deledu newydd a lansiwyd rai wythnosau 'nôl. O'r hyn a glywir ac a ddarllenir am y sianel honno mae'n bosib nad yw hynny fawr o golled i ni. Ac yn y mannau hynny lle mae'r sianel newydd ar gael mae'n rhaid addasu peiriannau fideo er mwyn derbyn lluniau'r sianel newydd. Fedr neb 'chwaith dderbyn lluniau lloeren SKY heb yr offer addas sy'n troi'r signalau yn llun a sŵn. Ac mae'r un peth wrth gwrs yn wir am bob gorsaf deledu a radio; mae'r cyfan y tu hwnt i'n cyrraedd heb y peiriant a'r erial a'r set addas.

Mae neges y Beibl yn ddirgelwch llwyr i gymaint o bobl. Gallant ei ddarllen, a methu gweld ei werth. Gallant ddilyn y straeon, a pheidio gweld eu hystyr. Gallant wybod y geiriau, a methu deall beth sydd a wnelo'r geiriau hynny â'u bywydau. Gall y cyfan aros yn ddiarth ac amherthnasol, os nad yn gwbl annealladwy.

Nid bod hynny yn syndod 'chwaith. Mae'r Beibl yn llyfr cwbl wahanol i bob llyfr arall. Mae wedi ei ysgrifennu'n gwbl wahanol gan mai Duw yw ei awdur. Duw sydd wedi arwain ac ysbrydoli ei awduron. Gair Duw ydyw, ac oherwydd hynny mae arnom angen help Duw i'w ddeall. Heb yr help hwnnw aros yn ddirgelwch wna'r Beibl a'i gynnwys. Cyfeiriodd yr Iesu at eiriau'r proffwyd Eseia er mwyn gwneud yr union bwynt hwn: 'Er gwrando a gwrando, ni ddeallwch ddim; er edrych ac edrych, ni welwch ddim.'

Yr Ysbryd Glân yw erial a thiwnar y Cristion i'w alluogi i dderbyn a deall neges y Beibl. Mae'r Ysbryd yn ei helpu i wneud synnwyr o'r geiriau. Yr Ysbryd sy'n gwneud y geiriau hynny yn fyw ac yn berthnasol. Yr Ysbryd sy'n gallu goleuo'r geiriau fel eu bod yn dod yn eiriau o gysur a cherydd a gobaith ac addysg i'r Cristion.

Os yw'r Beibl yn ddiarth i chi, mynnwch gael y Tiwnar i droi'r geiriau marw yn Air Bywiol. Ceisiwch gymorth Duw ei hun wrth ymgodymu â'r Beibl.

JOHN PRITCHARD

## PENISARWAUN

**Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407**

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263**

**Cyfeillion yr Ysgol.** Cynhelir Sêl Cist Car ar fuarth yr Ysgol Gymuned, nos Wener, Mehefin 20fed am 6.30 o'r gloch. Gofynnir i'r gwerthwyr fod yno o 5.30 o'r gloch ymlaen. Pris fydd £5 y car neu stondin. Bydd stondinau teisennau a nwyddau, paentio wynebau, raffl, castell neidio a phaned. Felly, dowch yn llu.

**Gwellhad.** Gobeithio bod pawb sy'n sâl yn y pentref yn gwella. Anfonir cofion annwyl at bob un ohonoch. Dymunir adferiad iechyd buan i Mrs Pat Larsen a mrs Nannie Evans, Bryntirion, wedi triniaethau yn yr ysbyty. Brysiwch wella.

**Diolch.** Dymuna Mrs Sali Griffith, 16 Bryntirion, ddiolch i bawb am y cardiau a'r rhoddion wedi marwolaeth ei brawd.

**Pwyllgor Neuadd Bentref.** Tynnwyd Clwb Cant mis Mai a'r enillwyr oedd: 1, Meical Jones, Tyddyn Perthi; 2, Mrs Alice Thomas, 10 Tai Arthur; 3, Delyth Williams, Pen y Gaer. Atgoffir chwi am y Raffl Fawr – mae'r tocynnau ar werth gan aelodau'r pwyllgor. Bydd yr elw yn mynd tuag at brynu sustem sain i'r Neuadd Gymuned. Tynnir y Raffl mewn noson o Bingo yn y Neuadd Gymuned ar Orfennaf 11. Y mae'r aelodau yn anfon eu dymuniadau gorau am wellhad buan i Pat Larsen sydd wedi derbyn triniaeth i'w chalon yn Lerpwl. Brysiwch wella Pat.

**Urdd Bentref.** Dymunir pob llwyddiant i'r aelodau fydd yn cystadlu ym Mabolgampau'r Urdd a diolchir i'r rhai fu'n eu hyfforddi a'u cludo. Cynhelir y Mabolgampau nos Lun, Mehefin 9fed, ar gaeau ysgol Syr Huw Owen.

**Eglwys Santes Helen.** Cynhaliwyd Gŵyl Gorawl Eryri eleni yn Eglwys Dewi Sant, Bangor, ddydd Sul, Mai 11. Llongyferchir Eurig Roberts ar ennill y darian i'r rhai ym mlwyddyn 8. Yn Festri'r Pasg etholwyd Ronald Pleming yn drysorydd yr eglwys i olynu Mrs Mary Davies. Bydd Mary Davies a Selwyn Griffith, Llanrug, yn aros yn eu swyddi fel Wardeiniaid ac Ann Paterson fel Ysgrifennydd Cyngor Plwyfol Eglwysig. Cynhelir Dydd Gweddi a Rhodd ddydd Sul, Mehefin 8fed. Gwasanaethir y Cymun Bendigaid am 10.30 y bore ac yna Gosber a Phregeth am 4 o'r gloch y pnawn, gyda'r Parchg Aled Jones Williams, ficer plwyf Porthmadog yn gweinyddu.

**Lwc Dda.** Yr un yw'r dymuniadau da eto y mis hwn i chwi oll sy'n sefyll arholiadau o unrhyw fath. Bydd blas ar y dathlu wedyn!

**Ysgol Gymuned Penisarwaun.** Ymarfer eu sgiliau rygbi fu Bl. 4, 5 a 6 yn ddiwedar gyda Miss Jên Jones. Buom yn ffodus iawn i dderbyn cymorth gyda'r gwersi rygbi gan Mr Alan Thomas a Mr Clive James. Trefnodd Mr Thomas gystadleuaeth i'r plant a'r enillydd oedd Heledd Wyn Jones. Ei gwobr arbennig oedd pêl rygbi wedi'i harwyddo gan aelodau o'r tîm cenedlaethol.

Mae plant yr ysgol wedi bod yn crwydro yn arw yn ddiweddar fel rhan o'u themâu. Yn gyntaf aeth Bl. 2 a 3 i Draeth Coch i wneud gwaith maes fel rhan o'u thema. Yna, fe aethant draw i ymweld â Segontiwm. Y tro yma fe gafodd y plant gyfle i wisgo fel milwyr Rhufeinig cyn ymosod mewn rhengoedd ar Miss Jones a Miss Owen.

I Fiwmares yr aeth y Babanod i ymweld â'r Amgueddfa Plentyndod fel rhan o'u thema 'Tedis'. Eto, fedl rhan o'r thema fe ymgymerodd y plant â gwaith maes o amgylch y pentref. Y nod oedd datblygu eu sgiliau daearyddol trwy chwilio am fan addas i gynnal picnic i'r Tedis.

Manteisiaf ar y cyfle yma i groesawu Mrs Ann Thomas yn ôl i'r ysgol ar ôl treulio cyfnod hir gartref wedi iddi dorri ei choes ychydig ddyddiau cyn y Panto ym mis Ionawr. Un o dermau byd y theatr i ddymuno 'lwc dda' yw 'break a leg', ond doedd neb yn disgwyl i Mrs Thomas gymryd hyn yn llythrennol! Croeso'n ôl yr hen goes!

Mae dychweliad Mrs Thomas yn golygu y bydd Miss Ffion Jones yn ein gadael. Bu Miss Jones yn athrawes lanw yn nosbarth Mrs Thomas am ran helaeth o'r cyfnod y bu Mrs Thomas yn absennol. Ar ran holl staff a phlant yr ysgol hoffwn ddiolch i Ffion am ei gwaith caled a'i hymdroddiad i'r dosbarth ac i'r ysgol dros yr wythnosau. Dymunwn pob llwyddiant i chwi ar gyfer y dyfodol.


**CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**



Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

**Emyr Jones**
PLYMAR
A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
(01286) 673513
hefyd
(0374) 496616
(symudol)

**ERIC JONES**
PENISARWAUN
PEINTIWR AC ADDURNWR



Joban Dda am Bris Rhesymol
Ffôn: 872421

Alwyn a Sarah Jones
**RACCA**
PENISARWAUN
★ Blodau ar gyfer pob achlysur
hefyd
★ Dewis da o Lysiau Fferm
★ Wyau *Free Range*
Ar agor saith diwrnod



870605
LLYSIAU AR GYFER PICLO

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR Ffôn: 650218
★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go Iawn ★

# O SIAMBAR SELWYN

**Mai y chweched, a minnau'n cychwyn tua'r post. Llais un o'm cymdogion yn galw, *'Rargian fawr tydi wedi oeri d'udwch — ma' hi fel geua; eira ar Eryri.'***

**Ia, y 'Rargian Fawr' 'ma. Mae'n debyg i chwithau, fel finna, glywed yr ebychiad sawl tro. Be ydi'i ystyr o ys gwn i?**

Dwi'n cofio i mi gael cerydd unwaith gan hen flaenor sychdduwiol ym Methel am i mi ddeud *'rargian fawr'* yn 'i glyw o. *'Rhag dy g'wilydd di,'* medda fo, *'yn torri un o'r deg gorchymyn,'* gan ychwanegu: *'Cofia, na chymer enw yr Arglwydd yn ofer.'* Roedd yr hen frawd yn bendant o'r farn mai ffordd neis o osgoi deud *'Arglwydd Mawr!'* oedd *'rargian fawr'*. Dwi'n credu i mi gael cerydd ar gam gan yr hen frawd parchus hwnnw.

Ond goslef geryddol fyddai yn llais Mam erstalwm pan fyddwn i'n dueddol o fynd dros ben llestri. Mi glywa' 'i llais hi rŵan: *'Rargian fawr hogyn rho'r gora i bryfocio'r gath 'na.'* Neu dro arall, *'Rargian fawr, hogyn, bydd ddistaw wir — rwyt ti'n siarad fel melin bupur!'* A minnau'n gofyn yn fy niniweidrwydd, *'Be 'di melin bupur Mam?'* a byth yn meddwl gofyn iddi beth oedd ystyr *'rargian fawr'*.

Sawl gwaith y bu i minnau arllwys y ddau air dros bennau dosbarthiadau o blant swnllyd pan oeddwn yn athro — *'Rargian fawr blant — byddwch ddistaw wir, ma' hi fel ffair yma.'*

Yn ôl Myrddin Fardd *'argan'* o bosib yw'r gair gwreiddiol ac yn deillio o'r gair *'cân'*. O roi *'ar'* o'i flaen mae o'n cryfhau'r gair. Fe ddywed mai ystyr y gair *'argan fawr'* yw *'sŵn mawr'*.

Mae'r llythyren *'i'* wedi ei llusgo i mewn i'r gair mewn rhai ardaloedd. Felly, fe glywn ni *'argian fawr'* a hefyd *'argol fawr'* mewn rhai mannau.

Ystyr yr hen air *'argynan'* yw cynhwrf, cwynfan, achwyn neu grwgnach, a dyna ni'n cyrraedd at y sŵn a'r ystyr ceryddgar sydd yn yr ebychiad *'rargian fawr'*.

Gellir honni hefyd ei fod o'n ffordd o gydnabod syndod, sioc neu siom. Hefyd fe all ddatgan nodyn o dristwch neu o bosib lawenydd. Mae'n dibynnu'n hollol ar oslef y llais.

Meddyliwch am dristwch y sefyllfa mewn datganiad fel hyn: *'Rargian fawr glywsoch chi fod yr hen John Jones wedi marw — sydyn 'te?'*

Ystyriwch y llawenydd yn y llais wedyn o ddatgan, *'Rargian fawr mi wnaeth Siân yn dda yn steddfod yr Urdd, 'ndo?'*

Dyna sioc wedyn: *'Glywsoch chi fod Mr Huws y gweinidog wedi cael damwain car?' 'Rargian fawr naddo. Pryd? Yn lle? Ydio wedi brifo?'*

A dyma un arall sy'n cyfeirio at ambell un sy'n dipyn o ddafad ddu o bosib, *'Rargian fawr — un fel'na ydio ychi — ma' tipyn o sôn amdano.'*

Ydi ma'r cyfan yn dibynu ar oslef y llais.

Nid bob tro y dwedwn ni *'rargian fawr'* mewn amgylchiadau fel yr uchod. Clywais yr un syndod a'r sioc a'r siom a'r llawenydd a'r tristwch hefyd yn cael ei gydnabod â'r geiriau, *'bobol anwl', 'bobol bach', 'nefoedd fawr', 'nefi blŵ', 'brensiach y bratia'*, a hyd yn oed *'sgersli bilif'* neu *'never in Ewrop'*.

* * *

Yn anffodus unig blentyn oeddwn i, ond roedd gen i gath pan oeddwn yn lwmp o ddireidi ym Mryn Alun, Bethel. 'Mwt' oedd enw'r gath ac roeddwn i'n cael tipyn o hwyl hefo hi. Hi oedd y teigar a finna oedd Tarzan. Roeddwn i'n clymu papur yn sownd yn ei chynffon hi, ac yn ei saethu hi hefo gwn dŵr, a dyna pryd y cawn gerydd gan Mam, *'Rargian fawr gad lonydd i'r gath na wir. Cripiad gei di!'* Ac mi ges i sawl cripiad hefyd, ac yn llawn eu haeddu nhw.

Dwi'n cofio Mam yn cyfarch y gath un tro hefyd hefo *'rargian fawr'* a rhyw oslef o ryddhad cariadus, boddhaus yn ei llais. Dyma'r stori:

Roeddwn i, ar ddiwrnod gwyntog, glawog wedi cael y syniad o wneud parasiwt i Mwt hefo sgarff silc fawr roedd fy 'nhad wedi'i gael yn bresant pen-blwydd. Gwnes harnes o linyn a strapiais fy nyfais am gynffon blewog Mwt. I fyny â fi i'r llofft gyda Mwt yn fy mreichiau. Roeddwn yn gwbl hyderus y gweithiai fy arbrawf ac y câi Mwt fwynhau profiad y *Red Devils* gan ddisgwyn yn hamddenol i'r ardd.

Agorais ffenest y llofft a gollyngais Mwt i ddannedd y ddrycin, gan ddisgwyl gweld y gath yn glanio'n ysgafndroed yn yr ardd. Ond — creisus! — agorodd y parasiwt ddim ac fe ddisgynnodd y gath druan i'r gwely riwbob, fel baw o ben-ôl buwch. O, do, fel pob cath, fe landiodd ar ei thraed a rhoddodd gip amheus i gyfeiriad ffenest y llofft, ymsythodd, ac i ffwrdd â hi fel 'cath i gythral' dros wal yr ardd ac ar draws y cae i gyfeiriad Tyddyn Andro, a'r parasiwt aflwyddiannus yn ei dilyn el barcud di-adenydd. Ddaeth Mwt ddim at ei soser bara llefrith y noson honno. Yn wir aeth wythnos heibio cyn iddi fentro dros riniog Bryn Alun. Dwi'n cofio Mam yn ei chroesawu, *'Rargian fawr, pws, lle rwyt ti wedi bod ers wythnos!'* gan ei mwytho'n gariadus, llenwi ei soser, a rhoi croeso'r Mab Afradlon iddi. Rhyw edrychiad go amheus ges i ganddi, ac o feddwl dros yr amgylchiad yn ddifrifol — *rargian fawr* welwn i fawr o fai arni hi 'chwaith. Diolch byth na fedar cathod siarad, ynte, na chario clecs fel yr hen frân wen. A diolch hefyd bod ganddyn nhw fwy nag un bywyd!

* * *

Mae'n bedwerydd ar bymtheg o Fai ac rydw i'n Killarney, Iwerddon, yn dathlu fy mhen-blwydd dros beint o Guinness.

Flwyddyn i heno, os byw ac iach, mi fyddai'n dathlu'r ffaith i mi gyrraedd oed yr addewid, ac un bywyd sy gen i — nid naw, fel cath.

*'Rargian fawr'* dydi'r blynyddoedd wedi fflio d'udwch!

# DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch. Ffôn: (01286) 870576

**Y Sulgwyn.** Cynhaliwyd Gŵyl Bregethu yng Nghapel Sardis, ddydd Sul, Mai 18fed, ac fe gafwyd cynulleidfa gref i bob un o'r oedfaon. Y pregethwr gwadd yn y prynhawn oedd y Parchg John Gwilym Jones, Bangor, ac ynan yn oedfa'r hwyr y Parchg Gwilym Hughes, Abergele, oedd yn pregethu. Hoffai swyddogion y capel ddiolch o galon i bawb o bob newad am eu cefnogaeth arferol i'r Ŵyl flynyddol hon.

Dymunwn yn dda i'r Parchg Olaf Davies, gweinidog y capel, sydd heb fod yn mwynhau iechyd da yn ddiweddar.

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu yng Nghapel Penuel, Bangor, ddydd Sul, 4ydd o Fai, ac fe fu'r plant yn llwyddiannus mewn arholiad llafar. Y plant oedd — Gwilym, Gruffydd, Megan, Einion, Dafydd, Manon a Bleddyn. Yna, ar nos Fawrth Mai 13eg, bu'r plant, gyda Helen yn cynortho, yn cymryd rhan mewn oedfa plant a phobl ifainc ym Mhenuel, Bangor.

**Llwyddiant.** Yng Nghymanf'r Presbyteriaid a gynhaliwyd yng Nghapel Cysegr, ar Fai 4ydd, enillodd plant Ysgol Sul Capel M.C. farciau llawn yn eu gwahanol ddosbarthiadau yn yr arholiad llafar: dan 4: Gwenno a Manon Mererid Morris; dan 6: Elin Ann Morris; dan 7: Sioned Mair Phillips a Rhian Wyn Morris; dan 8: Donna Elizabeth Phillips; dan 9 oed: Ceri Bryn Morris. Da iawn blant — daliwch ati.

**Llwybr Cyhoeddus.** Mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu nad ydynt yn cefnogi cais perchnogion Cae Goronwy, Fachwen, i wyro'r llwybr wrth ymyl eu cartref. Teimlad y Cyngor oedd bod y gwyriad yn anaddas ac yn anfoddhaol. O glywed y newydd hwn mae Cyngor Cymuned Llanddeiniolen a fu'n gwrthwynebu'r bwriad i wyro'r llwybr yn awyddus i ddiolch i bawb a gefnogodd hwy ar y mater hwn.

**Cyfarfod Pregethu.** Cynhelir Gŵyl Bregethu, Eglwys Crist, Llandinorwig ddydd Sul, Mehefin 15ed am 5 o'r gloch a'r pregethwr gwadd fydd y Parchg R. Donaldson, Rheithor plwyf Llanbeblig, Caernarfon. Croesewir pawb o bob enwad i'r Ŵyl.

**Diolch:** Hoffai Mr Derek Williams, Bron Eilian, a'r teulu ddiolch o galon i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli brawd annwyl iawn, Mr John Arfon Williams o'r Felinheli, yn ddiweddar.

## CORN Y CHWAREL

Ni chaeodd unrhyw gapel
Tra canodd Corn y Chwarel
Nid dyna'r hanes mewn sawl man
Ers pan fu hwnnw'n dawel.

J. R. JONES, Brynsiencyn, Môn


Siop Trin Gwallt
SANDRA
Stryd Fawr
DEINIOLEN
Ffôn: 872112
- Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
- Prisiau arbennig i bensiynwyr

Harddwch eich cartref gyda
FFENESTRI CELTIC WINDOWS
Sefydlwyd 1980
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)
Uned 5, Griffiths Crossing
Llanfair-is-Gaer, Caernarfon

SPAR
Y STORFA
LLANRUG
(Richard a Meirwen Williams)
Ffôn: (01286) 672790
Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth
Nid oes unrhyw dâl am ddanfon archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

# CWM Y GLO

**Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275**

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263**

**Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Cwm-y-glo.** Cynhaliwyd noson Carioci yng ngwesty'r Fricsan ym mis Ebrill. Cafwyd noson hwyliog dros ben a phawb wedi mwynhau eu hunain gyda digon o ganu ac mae'n rhaid dweud mai 'Madonna' aeth a'r noson a gobeithio y cawn ei gweld eto ym mis Awst. Roedd yr elw yn mynd tuag at gronfa'r Ysgol. Dymuna'r Gymdeithas ddiolch i Elaine a Howard, y Fricsan; hefyd i bawb am roddion y raffl. Enillwyr y raffl oedd: 1, 870918; 2, Mark Parry; 3, Wanda; 4, Susan Roberts; 5, Sioned; 6, Ivor; 7, Barry John; 8, Pauline Smith.

**Gartref o'r Ysbyty.** Croesawn Miss E. Hughes, Tan-y-graig, a Mrs E. Morris (Nain Becws) gartref o'r ysbyty gan ddymuno gwellhad buan i'r ddwy. Anfonwn ein cofion hefyd at Mrs E. Hughes, Hyfrydle, sydd yn Ysbyty Bryn Seiont.

**Llongyfarchiadau** i Sandra ac Arwel, Dôl Afon, ar enedigaeth mab, Matthew Lloyd, brawd bach i Heather a Hayley, hefyd llongyfarchiadau a dymunidau gorau i Mrs E. Williams (Anti Nel), Pant Afon, ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed.

**Undeb y Mamau.** Cafwyd cyfarfod yn Hafan Elan, Llanrug, ar 12 Mai. Yn absenoldeb Mrs Latham yr oedd y cyfarfod o dan ofal mrs Enid Taylor. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth rhai o'r aelodau. Y mae Mrs Barlow wedi dod gartref ar ôl cael sbel yn yr ysbyty; ac mae Mrs Pierce yn Ysbyty Bryn Seiont ar hyn o bryd. Bydd cyfarfod y Ddeoniaeth yn cael ei gynnal ym Machynlleth ar 19 Mehefin.

Y gŵr gwadd oedd Mr Charles Jones a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo am Syr William Preece, prif beirianydd sustem telegraff swyddfa'r post. Yn gofalu am y lluniaeth roedd Mrs J. Ransom a Mrs E. Taylor a diolchwyd iddynt, ac i Mr Jones, gan Mrs Sandra Birbeck. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Birbeck ac fe'i henillwyd gan Miss Meira Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar 2il Mehefin pryd y cynhelir 'Moes a Phryn' (Bring & Buy).

**Diolch.** Dymuna Mrs Llewelyn Hughes, Hyfrydle, ddatagan ei ddiolch calon a'i werthfawrogiad diffuant o'r llu cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd gan y teulu a chyfeillion ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed.

**Newyddion o'r Ysgol.** Mae'n bleser croesawu Mrs Beth Green o Lanrug atom i ddosbarth y Babanod. Gobeithio'n wir y bydd yn hapus yma gyda ni a dymunwn y gorau iddi ar ei chwrs NNEB yng Ngholeg Menai ym mis Medi.

Treuliodd Lyn Roberts o Ysgol Brynrefail wythnos o brofiad gwaith mewn arlwyo yn y gegin. Diolch i Mrs Sian Welsh am ofalu amdani ac anfonwn ein cofion cynnes at Mrs Orritt gan obeithio ei bod yn gwella.

Cafodd plant Bl. 3-6 sgwrs ddiddorol iawn am sut i ofalu am y dannedd gan Mrs June Bird, nyrs ddeintyddol ardal Dwyfor. Aeth yr un plant ar ymweliad â Chastell Penrhyn. Treuliwyd bore difyr mewn gwahanol weithgareddau yn mynd o gwmpas crandrwydd y castell yn y pnawn.

Aeth dosbarth y Babanod i'r Pili Palas am brynhawn difyr iawn yng nghwmni mr Hugh John Hughes. 'Yn yr Awyr' yw eu thema'r tymor hwn ac fe welsant bob math o ryfeddodau yno.

Diolch yn fawr a llongyfarchiadau i'r 11 plentyn aeth i gynrychioli'r ysgol yn y Ganolfan Hamdden yn y Gala Nofio.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Hughes, Dôl Afon, ar enedigaeth Matthew Lloyd. Mae Heather a Hayley yn meddwl y byd o'u brawd bach newydd.

Enillwyr Clwb yr Ysgol am fis Ebrill oedd Mrs Sandra Hughes, Dôl Afon; ac Arwyn Jones, Isfryn, Cwm-y-glo. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch.

Cafwyd noson hwyliog iawn o Carioci yng ngwesty'r Fricsan nos Sadwrn, Ebrill 26. Trefnwyd y weithgaredd gan y rhieni. Diolch i bawb gyfrannodd i'r raffl ac a gefnogodd yr hwyl — yn enwedig y rhai fu'n canu!

Daeth inni newyddion da iawn o Fro Islwyn. Mae Michaela Radnor, 7 oed, wedi ennill y gystadleuaeth argraffu o dan 8 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Ac yn fwy na hynny, dyfarnodd y beirniaid mai ei chynnyrch hi, sef gwaith peintio ar sidan ar y thema 'Creaduriaid' oedd yn deilwng o'r Tlws dan 12 oed yn yr adran Tecstiliau. Cyflwynir hwn gan Ysgol Gyfun Maes-yr-yrfa. Da iawn chdi, Michaela, a gobeithio y byddi'n mwynhau'r trip i lawr i'r Eisteddfod.

Rydym am fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno'n dda i Mrs Kathryn Tyrrell, Ysgol Brynrefail, fydd yn ymddeol ym mis Gorffennaf. Bu'n gyswllt cynradd/uwchradd werthfawr iawn am flynyddoedd lawer ac mae'n rhyfedd iawn meddwl ei bod wedi ymweld â ni yng Nghwm-y-glo am y tro olaf yr wythnos ddiwethaf. Diolch o galon am eich cefnogaeth a'ch ymroddiad Kathryn.



*Mr Llewelyn Hughes, Hyfrydle, yn barod i deithio ar Concorde ar adeg dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar.*

## CYMANFA YSGOLION SUL DOSBARTH PADARN

Cynhaliwyd y Gymanfa yng nghapel Cysegr, Bethel, pnawn a nos Sul, 4 Mai. Arweinydd y gân oedd Mrs Rhianwen Hughes Roberts, Bagnor. Llywyddwyd cyfarfod y pnawn gan Mr Geraint Elis a chyfarfod yr hwyr gan Mr Goronwy Jones. Yn ystod cyfarfod yr hwyr cafwyd eitemau gan ferched y Cysegr a chân gan Sioned Owen. Plant Ysgol Sul y Cysegr fu'n gyfrifol am y gwasanaeth dechreuol yn y ddau gyfarfod.

Dyma'r rhai fu'n llwyddiannus yn yr Arholiad Llafar:

**Dan 4 oed:** Gerallt Jones, Manon Elwyn Hughes, Siân Jones, Cysegr; Tomos Williams, Miriam Pritchard, Siân Pritchard Jones, Capel Coch; Emma Owen, Rhiwlas; Ffion Wyn Owen, Deiniolen; Mared Meleri Morris, Gwenno Medi Morris, Dinorwig; Anna George, Brynrefail.

**Dan 5 oed:** Mannon Pritchard, Llion Glyn Jones, Ceri Wyn Hughes, Capel Coch; Llio Hywel, Ella C. Kirsty, Sioned Brown, Angharad M. Price, Robin Jones, Siôn Elwyn Hughes, Cysegr; Danny Wyn Owen, Rhiwlas; Elin Ann Morris, Dinorwig; Aaron Wyn Jones, Peri Murphy, Manon Wyn Jones, Ashley McGwigan, Gavin Taylor, Daniel Lovell, Deiniolen.

**Dan 6 oed:** Caryl Jones, Awen Jones, Rhian George, Brynrefail; Caryl Ann Williams, Sioned Adwen Williams, Deiniolen; Alan Evans, Sarah Parry, Sarah Elizabeth Jones, Capel Coch; Elliw Gwenllian, Ffion Medi Roberts, Hefin Owen, Iona Speake, Cysegr.

**Dan 7 oed:** Dylan Wyn Owen, Rhiwlas; Gwenllian Owen, Deiniolen; Rhian Wyn Morris, Sioned Mair Phillips, Dinorwig; Siôn Garth Owen, Aled Gwilym Jones, Cysegr; Tomos Parry, Ian Wyn Williams, Gwyn Pritchard Jones, Daniel Lloyd Roberts, Nicola Dawn Hughes, Capel Coch.

**Dan 8 oed:** Despina Lloyd Jones, Iola Thorman Jones, Sioned Medi Hughes, Ceri Roberts, Cysegr; Carwyn Jones, Gwen Mererid Tomos, Gwenonwy Alun, Capel Coch; Nia Wyn Thomas, Janine Williams, Rhiwlas; Nidian Caffo Hughes, Emma Lovell, Daniel Wyn McGwigan, Michelle Dian Jones, Deiniolen.

**Dan 9 oed:** Donna Elizabeth Phillips, Ceri Bryn Morris, Dinorwig; Gruffydd Siôn Pritchard, Carys Wyn Hughes, Sioned Wyn Jones, Michelle Allsup, Rhiannon Jones, Alaw Ceris, Capel Coch; Siôn Roberts, Catrin Parry; Ffion Thorman Jones; Nia Glyn, Rhys Hughes, Cysegr.

**Dan 10 oed:** Gwion Meilir Owen, Cysegr; Ellen Williams, Brynrefail; Elin Roberts, Llifon James Jones, Capel Coch.

**Dan 11 oed:** Mathew Barlow, Deiniolen; Cadi Osler, Ffion Williams, Lois Wyn Hughes, Cysegr; Iwan Jones, Gethyn Siôn Pritchard, Mathew Roberts, Capel Coch.

**Dan 12 oed:** Amy Lambert, Brynrefail; Dafydd Siôn Pritchard, Bethan Roberts, Capel Coch; Ffion Owen, Llio Hughes, Gwen Rowlands, Cysegr.

**Dan 13 oed:** Aled Vaughan Roberts, Arwyn Owen, Iwan Morris, Cysegr; Sara Barlow, Deiniolen.

**Dan 16 oed:** Delyth Morris, Cysegr.

**Parti cydadrodd dan 11 oed:** Parti Gwion, Cysegr.

**Dan 50 oed:** Mr Gareth Jones, Capel Coch; Mrs Eunice Jones, Rhiwlas; Mrs Deilwen Hughes, Mrs Ann Lewis, Mrs Sharon Quinn, Mrs Myfanwy Harper, Cysegr.

**Dros 50 oed:** Mrs Elizabeth Evans, Mrs Edwina Morris, Mrs Nora Parry, Cysegr.

Carai'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i swyddogion, aelodau ac athrawon Ysgol Sul y Cysegr am dderbyn y Gymanfa ac am eu gwaith caled yn ei gwneud yn Gymfanfa lwyddiannus. Diolch yn arbennig am y wledd a gawsom. Diolch i'r merched am fod mor barod i baratoi côr i gymryd rhan yng nghyfarfod yr hwyr ac i Mrs Glenys Griffiths am eu hyfforddi. Diolch i Sioned am ei chyfraniad hithau. Diolch yn fawr iawn hefyd am y gefnogaeth deilwng a gawsom gan y gynulleidfa.

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: (01286) 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

# GEMINI

## gan Y GWALCH

Roedd y gelyn wedi bod yn paratoi ers misoedd i wneud ymosodiad gorffwyll drwy'r Ardennes, gyda'r bwriad terfynol o gyrraedd yr arfordir a meddiannu porthladd pwysig Antwerp. Ar gyfer hynny roedd milwyr arbennig wedi eu dethol, nid yn unig i siarad fel Americanwyr, ond i wisgo eu dillad hefyd, fel y gwnaethant ddiosg lifrai'r Paras meirwon ger Merville a'u gwisgo eu hunain er mwyn achosi dryswch a phenbleth i'r ymosodwyr. Roedd cyrch yr Ardennes yn cael ei gefnogi gan danciau ac yn dibynnu ar syndod, a thawelwch y Nadolig.

Pan ddarganfuwyd eu hamcan o'r diwedd fodd bynnag, roedd y tywydd yn llesteirio adwaith yr amddiffynwyr. Heblaw y trwch o eira a oedd ar y llawr, daeth yn dopyn o niwl am ddiwrnodiau; hynny yn cwtogi gweithgaredd yr awyrennau, ond pan gliriodd hwnnw o'r diwedd yr oedd y Typhoons yn atebol i'r her a bu cyflafan yng nghyffiniau Bastogne, ac ataliwyd yr ymosodiad.

Er mai aflwyddiannus fu ymosodiad y Paras yn Arnhem, roedd y byddinoedd erbyn hynny yn paratoi i groesi'r Rhein i dir y gelyn ei hun ac, fel pob ceiliog yn amddiffyn ei domen, roedd adwaith y rheiny yn fwy milain.

Roedd y CO yr adeg honno yn awyddus i ganfod maes yn nes i ffin yr Almaen, a daeth gwybodaeth fod yna un ar gael gerllaw Venlo ychydig i'r gogledd yn yr iseldir. Ddaeth yna ddim manylion pellach am gyflwr y maes a phenderfynodd anfon rhywun i ganfod ei ansawdd, a'r rhai a ddewisodd oedd y ddau lanc Castor a Pollux. Cawsant orchmynion i adolygu'r safle yn ofalus o'r awyr i gychwyn cyn disgyn ac anfon neges radio.

Roedd yn drefniant amhethun o dan yr amgylchiadau. Roedd rhai ar y pryd yn ddigon amheus i gredu fod y CO wedi cael cymaint o drafferthion gyda'r pâr yma nes iddo yn y diwedd geisio cael gwared â hwy mewn dull cynlledd. Ond i ffwrdd yr aethant un ben bore yn eu Tiffies arfog, ac mor hyderus yr oeddent o lwyddiant nes iddynt gludo eu mân eiddo personol i'w canlyn yn y cockpit, gan gynnwys yr ysbail o Normandi.

Ni chawsant unrhyw drafferth i adnabod y maes awyr. Rhoddasant dro neu ddau uwchben a glanio wedyn fesul un. Doedd dim adyn i'w weld yn unman a cherddasant ar draws at yr adeiladau. Yn amlwg roedd yr Almaenwyr wedi gadael cyn i hyd yn oed y fyddin gyrraedd i'w disodli. Ond, wrth gwrs, y perygl mwyaf mewn sefyllfa felly oedd i un neu ddau o snipiers fod wedi cael eu gadael ar ôl i'w croesawu.

Tawelwch mawr oedd ar bob tu fodd bynnag, ac ar ôl archwilio un neu ddau o adeiladau, penderfynasant anfon eu neges yn ôl i'r gweddill. Cerddodd Pollux yn ôl at y Typhoon tra roedd y llall wedi datgan awydd i fynd i ddefnyddio un o'r tai bach.

Cyn i'r llanc gyrraedd yr awyren clywodd glec fyddarol o'i ôl, a gwelodd fwg yn arllwys allan o ddrws un o'r adeiladau. Rhedodd yno gan weiddi ond ni chafodd atebiad, a bu am rai munudau yn ceisio darganfod ei ffordd drwy'r mwg taglyd. O'r diwedd daeth o hyd i'w gyfaill ar lawr un o'r tai bach, wedi cael anafiadau difrifol i'w gluniau a'i gefn. Roedd y badell degan a'r tanc dŵr yn sgyrion fel cregin mân ymhobman. Penliniodd Pollux yng nghanol yr holl alanas, ond i ddim pwrpas. Yr oedd Castor wedi'i ladd.

Aeth P!ollux allan wedyn i'r awyr iach, ac yna dychwelodd i'r caban amaluriedig. Wedi oedi enyd uwchben ei gyfaill datododd yr oriawr aur oddi ar ei fraich a'i gwisgo am ei arddwrn ei hun. Yna aeth yn ei ôl i'r Typhoon, ond nid i anfon neges. Llwyddodd i danio'r Sabre a chododd yn syth i lefel isel. Clodd ei gwmpawd ac anelodd yn syth am ffin yr Almaen, ac wedi ei chroesi, bu'n rhaid iddo ehedeg am beth ffordd i mewn i'r wlad cyn darganfod beth yr oedd yn chwilio amdano.

Pentref o faintioli oedd hwn, gydag un heol yn ei goroesi hyd-gyd. Gostyngodd Pollux ei uchder ac ehedodd uwch ei phen. Yr oedd yn wybyddus fod amryw o bobl islaw yn ei wylio. Trodd yntau yn ei ôl ar gyrrion y pentref gan ddychwelyd wedyn ar hyd yr un llwybr. Y tro yma, fodd bynnag, gollyngodd ei rocedau i ganol y tai nes yr oeddent yn ysgyrion. Daeth yn ei ôl wedyn gan wneud yr un pethac yr oedd yn cael cipiadau ar y trigolion yn dianc fel cwningod i ryw dwll a allent ei ddarganfod, ond doedd eu poenydiwr ddim wedi diwallu ei ddialedd o bell ffordd. Trodd wedyn ac arllwysodd gynnwys y machine guns cynorthwyol i'w plith. Yna, cododd ynsyth heb fawr amcan i ble i fynd. Cip ar awyren arall yn chwyrnellu heibio iddo a wnaeth iddo sylweddoli nad oedd bellach ar ei ben ei hun yn y darn hwnnw o'r awyr, ac yr oedd croesau duon arni, a phan ysgytiwyd y Typhoon gan drawiadau o'r tu ôl, yr oedd yn amlwg iddo fod gan y Messerschmit gymdeithion; gryn hanner dwsin yn ôl ei amcangyfrif; bob un i bob tebygrwydd wedi bod yn dyst i'w anfadwaith funud ynghynt.

Canfyddodd Pollux ei hun mewn brwydr wyrol; a doedd o ddim mor gynefin â'r math yma o ryfela. Ar ben hynny roedd yr Me's yn ystwythach eu tro na'r Typhoon, ac wrth geisio osgoi eu ymosodiadau ni sylweddolodd ei fod yn cael ei orfodi i dreiddio ymhellach bellach i'r Almaen bob munud a'i danwydd erbyn hynny ar drai. Ond ni roddwyd cyfle iddo i bryderu am hwnnw. Aeth ergyd canan drwy gefn ei sedd a'i ladd.

Nid aeth yr awyren i lawr ar ei hunion. Daliodd i ehedeg am rai milltiroedd gan ostwng yn barhaus. Plymiodd yn y diwedd i goedwig gan dorri topiau'r coed fel matsus, a daeth i orffwys a'i phen i waered ar ochr reid lydan yn y pîn. Roedd y peilot yn dal yn ei strapiau a'i ben i lawr yn gwaedu fel mochyn ar fach.

Ymhen diwrnod neu ddau daeth rhyw griw amheuthun i lawr y reid. Yr oedd yn anodd credu ar rai edrychiadau eu bod yn fodau dynol; yn hytrach, ymdebygent i fwganod brain gyda'u barfau a'u gwalltiau llaes direol a'u dillad carpiog, ac nid rhyfedd hynny gan nad oeddent o'r bron yn ddim ond croen am asgwrn a'u gwedd yn guriedig. Roedd rhai yn droednoeth heblaw am hen gadachau a rwymasant am eu gwadnau. Roedd ereaill yn gloff ac yn pwyso yn drwm ar ddarnau o frigau a dorasant i weinyddu fel ffyn.

Buasai brodorion y wlad wedi eu hadnabod ar unwaith: carcharorion Rwsaidd oeddent wedi eu rhyddhau o un o'r gwersylloedd melltigedig i'r de a feddianwyd gan yr Americanwyr. Yn hytrach na disgwyl am drefniadau gwell, roeddynt wedi penderfynu mentro ar droed ar draws gwlad i geisio cyrraedd eu tir eu hunain, ac yn ddyddiol yn cyfeirio eu taith at barthau torriad gwawr.

Roedd y goedwig wedi llesteirio eu hamcan a'u gorfodi i wneud cylch, ond yr oeddent wedi taro ar y reid yn ddisymwth a'i thramwyo gyda'r gobaith yr arweiniai i wlad agored y tu hwnt.

Yn anochel daethant hefyd ar draws y Typhoon a'u hadwaith cyntaf oedd ansicrwydd ac ofn, ond mentrodd un neu ddau ymlaen o'r diwedd, ac yna dilynodd y gweddill o lech i lwyn, ac yr oeddynt erbyn hyn wedi eu meddiannu â rhyw wefr ddieithr a chynnwrf. Tynnodd un mwy ymarferol na'i gilydd gyllell o'i wregys a thorrodd y strapiau a oedd ynd al y corff. Syrthiodd hwnnw wedyn ar lawr yn glir o'r awyren. Roedd hyn fel pebai yn arwydd i'r holl griw neidio arno fel ffwlturiaid i ddiosg ei ddillad, a bu ymryson mawr am yr esgidiau gwlân a'r siaced Irvin a'r llodrau. Rhwygwyd y crys yn ddau gan eraill a oeddent yn ceisio ei feddiannu, ac yr oedd penderfynu perchnogaeth y menyg a'r sannau hyd yn oed yn achosi cythrwfl. Yn yr ymgiprys am y waled ledr, taenwyd ei chynnwys yn arian a lluniau hyd lawr y goedwig, ac aeth awel â rhai o'r golwg, er i'r rhai gwanaf a adawyd heb ddim, wneud ymgais druenus i'w dal. Bu mwy o gweryla wedyn am yr oriawr aur a'r 'Luger' a oedd wedi'i strapio am goes y marw. Yn y diwedd troesant i ailafael yn eu taith annobeithiol gan ddal i daeru a checru, a chan adael Pollux yn meddiannu dim ond ei 'dog tag' a grogai wrth linyn am ei wddf.

Beth sydd wedi cael ei alw ar hyd y canrifoedd ryfelgar mae'n debyg yn 'Ffawd Rhyfel'.

*(Ni fwriadwyd cysylltu yr un o'r cymeriadau yn y rhamant hwn ag unrhyw berson byw na marw — Yr awdur).*


Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr gan y bobl BROFFESIYNOL
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau i'ch CAR. Cystal â Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych CHWI yn ei yrru, o Audi i Zastava

MOT · AA Specialist · RAC Selected · Retail Motor Industry Federation

GEMINI SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW
YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH SERVICE



**BWS BACH AR LOG**



Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

**D. P. OWENS**
RHIWLAS
01248-361044



Am eich
ANGHENION ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR A "D.I.Y."
am
BRISIAU CYSTADLEUOL
DEWCH AT

**BRYN**
(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

## DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

**Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhes y Faenol, Deiniolen (871174)**

**Medal Gee.** Llongyfarchiadau mawr i Elisabeth Williams, 10 Ffordd Deiniol, sydd wedi derbyn y Fedal Gee am ei ffyddlondeb i'r Ysgol Sul. Cyflwynwyd y Fedal iddi ddydd Iau, Mai 22, yn y Capel Mawr, Rhosllannerchrugog yn ystod cyfarfodydd blynyddol Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru.

**Cyfarfod Pregethu.** Y Parchg Ddr Densil Morgan, Bangor, oedd yn gwasanaethu yn ystod yr Ŵyl Bregethu a gynhaliwyd yn Ebeneser, ddydd Sul, Mai 11.

**Cyngor Eglwysig.** Cynhaliwyd Gwasanaeth Wythnos Cymorth Cristnogol yn Ebeneser, nos Lun, Mai 12. Cafwyd cynrychiolaeth dda o'r eglwysi lleol. Yr oedd trefnydd Cymorth Cristnogol yn y gogledd, Mrs Lis Perkins, yn yr oedfa a chyda hi roedd gwraig o'r India sy'n gweithio i un o'r mudiadau a gefnogir gan Cymorth Cristnogol. Mae Cymdeithas Ddatblygu Deccan yn estyn cymorth i wragedd a theuluoedd difreintiedig, a soniodd Dr Rao am beth o'r gwaith ac am rai o'r unigolion sy'n cael eu helpu trwy'r gwaith hwnnw. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n casglu arian yn lleol yn ystod yr wythnos, a diolch wrth gwrs i bawb a gyfrannodd at y casgliad.

**Yr Ysgol Sul.** Mae hi wedi bod yn fis prysur i blant yr Ysgol Sul Unedig gan eu bod wedi cymryd rhan mewn dwy Gymanfa Ganu. Buont yn cyflwyno eitem yn y Gymanfa yng nghapel Jerusalem, Llanberis, ddydd Sul, Ebrill 20. Y Sul dilynol roedd yr arholiad llafar ar gyfer Cymanfa'r Presbyteriaid, a'r Sul wedyn, Mai 4, buont yn y Gymanfa yng nghapel y Cysegr, Bethel, ac yno cyflwynwyd iddynt eu gwobrau am lwyddo yn yr arholiad.

**Llwyddiant Cerddorol.** Llongyfarchiadau i Elfed Morgan Morris, Llechwedd, Deiniolen, ar ei lwyddiant gydag anrhydedd mewn arholiad piano (gradd 2). Hefyd gydag anrhydedd mewn arholiad telyn (gradd 2).

**Ysgol Gwaun Gynfi.** Cafwyd hanner tymor prysur iawn ar gychwyn tymor yr haf.

Erbyn hyn mae pawb wedi anghofio am y tywydd braf a gawsom ar ddechrau'r tymor ond manteisiodd y plant a'r staff arno i gwblhau eu gwaith maes.

Bu dosbarthiadau Mrs Griffith a Mrs Parry allan am dro o gwmpas rhai o erddi'r pentref gan sylwi ar y blodau gwyllt sy'n tyfu ar ochr y ffyrdd.

Mae Mrs Hughes a'i disgyblion yn ddiolchgar iawn i Mrs Cain am drefnu prynhawn o blannu blodau a llysiau yn ei gardd. Mwynhaodd y plant eu hunain yn fawr iawn, a diolch i Mrs Morris hefyd am ddod i gynorthwyo gyda'r plannu. Bydd tatws fel 'ffwtbols' yng ngardd mrs Cain eleni!

Bu dosbarth Miss Jones yn astudio tir yr ysgol yn ogystal â chychwyn ar eu gwersi nofio.

Mae plant Bl. 2 yn mwynhau eu gwersi dawnsio creadigol gyda Kate Whelan o Dawns Gwynedd — yn chwysu chwartiau bob pnawn Mercher!

Newydd ddychwelyd o Rhyd-ddu y mae Bl. 5 a 6 yn dilyn tridiau o waith maes yng nghwmni Mr ap Elwyn a Mrs Andrea Jones. Bu Mrs Helen Jones a Mr Parry yno'n cynorthwyo hefyd. Cafodd y plant hwyl fawr yn ogystal â chael gwersi addysgiadol ac ymweld â lleoedd fel Gwaith Copr Sygun, Beddgelert. Dychwelodd pawb i'r ysgol gyda lliw haul arnynt fel pe baent wedi bod yn y Bahamas!

Cafodd holl blant yr ysgol gyfle i weld 'Scatty the Scarecrow' — drama ynglŷn â'r amgylchfyd gan y Northern Theatre Group; a bu Cwmni'r Frân Wen yma i berfformio 'Rhwng Môr a Mynydd' i blant dosbarth Mrs Jones a'n cyfeillion o Ysgol Cwm-y-glo.

Bu'r plant yn cymryd rhan mewn Gala Nofio i'r ysgolion lleol ac mewn cystadleuaeth rygbi ar gae Clwb Rygbi Caernarfon.

**Diolch.** Dymuna Laura a merched y diweddar John Pritchard ddiolch i'w perthnasau, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad, cymorth a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gŵr cariadus a thad caredig a gofalus.

# GWRAIG Y TŶ YN YR ARDD

Mae sawl rhaglen garddio wedi bod at y teledu dros y blynyddoedd. I ddechrau cafwyd 'Palu 'Mlaen' efo Medwyn Williams â'i Gymraeg Sir Fôn, yna 'Yn Ôl i'r Ardd'; ac erbyn hyn 'Clwb Garddio'. Mae'r enw 'clwb' yn awgrymu mai ar gyfer garddwyr profiadol y mae'r rhaglen.

Sut hwyl mae gwraig y tŷ yn ei gael yn yr ardd? Mae'r eirlysiau y cenais eu clodydd ar gân fis yn ôl wedi mynd i orffwys tan y flwyddyn nesaf ac erbyn hyn mae'r cennin Pedr yntau ar fin mynd i orffwys hefyd. Garddio mewn potiau ydw i gan fod treigl amser yn fy rhwystro rhag 'Palu 'Mlaen'!

Rhaid tynnu'r cennin Pedr o'u potiau a'u gosod mewn cornel i wywo, ac yna eu codi a'u sychu yn barod i'w hailblanu yn yr hydref. Mae'r lliwiau melyn a gwyn yn hardd iawn, a gwelir hwy ar eu gorau mewn un ardd arbennig yn Llanrug yn tyfu mewn môr o laswellt. Mae'n wledd i'r llygaid adeg Sul y Blodau.

Ond nid yw garddio potiau mor hawdd ar dywydd sych gan fod gormod o waith cario dŵr.

Rwyf wedi bod yn cymryd toriadau o'r blodau Mihangel. Nid wyf yn ddigon proffesiynol i allu cymryd toriadau go iawn — dim ond yr hyn mae'r garddwyr yn eu galw'n *'Irishman's Cuttings'*, sef toriadau â gwraidd iddynt — er nid oes gennyf syniad beth sydd â wnelo'r Gwyddel â hwy! Tybed oes gan rywun esboniad i'r enw?

Bydd y potiau allan yn yr ardd dros yr haf ac yna i'r tŷ gwydr â nhw yn yr hydref. Un o'r enw 'Blanche' yw fy ffefryn i — enw Ffrengig — ac fel yr awgryma'r enw mae hwn yn glaerwyn. Bydd yn codi 'nghalon ym mis Tachwedd.

Erbyn hyn mae'r potiau eraill yn wag wedi blodau'r gwanwyn, ond mae'r caru'n ofer (pansy) yn ddigon del, ac felly hefyd blodau'r fagwyr (wall flowers). Sonnir am 'fagwyrydd' yn un o'n hemynau. Mae'r rhain yn eithaf caled, ond clywais gyngor ar y radio y diwrnod o'r blaen i beidio plannu rhai hanner-caled (half-hardy annuals) hyd ganol Mai — nes bydd perygl rhew wedi cilio. Mae'r archfarchnadoedd a rhai o'r siopau ar fai yn eu gwerthu'n rhy gynnar ym mis Mawrth gan y bydd peryg iddynt ddifetha os nad oes gennych dŷ gwydr.

Mae'n rhy fuan i mi roi fy mynawyd y bugail allan eto. Mae'r rhain yn hoffi bod dan do am sbel cyn eu rhoi allan efo'r lobelias a'r alysum coch, gwyn a glas — NA, dydw i ddim yn troi yn 'Royalist'!

Wel, dyna fi wedi rhoi fy mhwt garddio eto. Hwyl, a chofiwch wylio'r rhaglen ar S4C gan fod pobol y 'Clwb' yn gwybod mwy na 'Gwraig y Tŷ'!

**CYFARFOD BLYNYDDOL**
**ECO'R WYDDFA**
**Ysgol Brynrefail, Llanrug**
**Nos Fawrth, 10 Mehefin**
**am 7 o'r gloch**
**DEWCH YN LLU**

# DRAENOG



**Nid yn aml fydd y Draenog yn stelcian o gwmpas y wasg — rhag ofn i mi gael fy mrifo! Ond clywais stori reit ryfedd o'r cyfeiriad hwnnw yn ddiweddar: 'Dwi isio picio fy nghar i garej ATS i drwsio'r slo pyncjar — 'nei di alw yno yn dy gar di i fy nôl.' . . . Wrth i'r *ddau* ddynesu *(yng ngherbyd y cymwynaswr!)* at garej ATS, wel, SOS! bu bron i'r *pasinjyr* fynd yn Sobor o Sâl: 'Dŵad i fy NÔL i roeddat ti i fod y lembo . . . GER yn ôl, mae 'nghar i (a'r pyncjar) yn dal y tu allan i Wasg Gwynedd!'**

Cefnogwch ein Hysbysebwyr


*Fframia*

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

**Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd**

**Nifer helaeth o luniau ar werth**
**Dewis eang yn cynnwys:**
IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
*(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)*

**Royal Victoria Hotel**
**LLANBERIS**

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau
Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul
Cwrw Felin Foel

**Ffôn: (01286) 870253**

# Llwyddiant Loteri i'r Unig Amgueddfa Lechi yn y Byd

**Mae'n bleser gan Gronfa Loteri'r Dreftadaeth ac Amugeddfeydd ac Orielau Cenedlathol Cymru (AOCC) gyhoeddi i Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, yr unig Amgueddfa lechi genedlaethol yn y byd, a phencadlys AOCC yng ngogledd Cymru, lwyddo yn ei chais i sicrhau grant o £1.6 miliwn o arian y loteri.**

Mae'r Amgueddfa yng nghanol ardal y chwareli yng ngweithdai byd-enwog Chwarel Dinorwig a bydd y grant yn trawsffurfio'r Amgueddfa yn ganolfan fodern ar hanes cymdeithasol a diwydiannol ar gyfer y mileniwm newydd.

*'Dyma newyddion cyffrous dros ben i'r rhan yma o Gymru,'* meddai Colin Ford, Cyfarwyddwr Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. *'Bydd y prosiect yn gatalydd i ddod a chyrff lleol a chenedlaethol at ei gilydd i ddatblygu treftadaeth ddiwyddiannol wych yr ardal brydferth hon.'*

Amcan y datblygiad fydd gwella hanes llechi yng ngogledd Cymru gan ddefnyddio'n cyfres o nodweddion newydd gan gynnwys:

★ Bydd mynediad i bawb hefyd at yr olwyn ddŵr fwyaf ar dir mawr Prydain, trwy gyfrwng Oriel i ymwelwyr y tu mewn i dwr yr olwyn ddŵr. Bydd llwyfan yn cael ei osod o fewn y tanc dŵr gwag ar ben twr yr olwyn ddŵr i bobl weld golygfa anhygoel y chwarel, y Wyddfa, Castell Dolbadarn, Llanberis ei hun, a Pharc Padarn.

★ Adfer un o incleins Chwarel Vivian i ddangos sut y câi talpiau anferth o lechi eu cludo i lawr y mynydd.

★ Symud teras o bedwar tŷ chwarelwyr o Flaenau Ffestiniog i'r Amgueddfa ac ail-leoli tŷ prif beiriannydd oddi mewn i'r Amgueddfa.

★ Ehangu ar waith crefftwyr yr Amgueddfa.

★ Sefydlu cyflwyniad aml-gyfrwng dramatig ar hanes llechi, o'r enw 'Dwyn Mynydd'. Bydd hwn yn gosod diwydiant llechi gogledd Cymru a'i gymunedau mewn cyd-destun byd-eang, gan ddefnyddio adnoddau unigryw AOCC.

★ Sefydlu man chwarae a darganfod i blant ac adeiladu siop a chaffi newydd.

# MABOLGAMPAU'R CYLCH

Cynhaliwyd mabolgampau cylch gogledd Gwynedd ganol y mis ar drac Treborth. Mae'r trac hwn yn gaffaeliad mawr ac yn sicr yn rhoi cryn hyder i'n athletwyr.

Roedd chwe ysgol yn ymgiprys am y bencampwriaeth — ysgolion Brynrefail, Syr Huw Owen, Tryfan, Dyffryn Ogwen, Friars a Dyffryn Nantlle. Roedd dwy gystadleuaeth yn cydredeg — i fechgyn a genethod o dan 15 oed; a bechgyn a genethod o dan 17 oed.

Daeth tîm Brynrefail gartref gyda dau dlws — i'r tîm genethod dan 15 oed (10 pwynt o flaen Ysgol Syr Huw Owen); a'r tlws genethod dan 17 oed (10 pwynt o flaen Ysgol Tryfan).

Yn anffodus ni chafwyd yr un llwyddiant gan y bechgyn gyda'u timau hwy yn drydydd yn yr oedran dan 15 oed, a thrydydd yn yr adran dan 17 oed.

Yn dilyn y gystadleuaeth bydd 20 o aelodau timau'r ysgol yn cynrychioli adran gogledd Gwynedd ym Mhencamwpriaeth Eryri (yr hen 'Wynedd' a gorllewin yr hen 'Clwyd') yn Nhreborth ar 14 Mehefin. Bydd y rhai llwyddiannus yno yn mynd ymlaen i'r mabolgampau cenedlaethol. Dymuniadau gorau iddynt i gyd.

## DRAENOG

**Peth braf ydi bod yn ifanc. Clywais wraig o Ddeiniolen yn dweud am gyfeilles iddi: 'Dim ond ifanc ydi hi . . . rhyw 83 neu 84 mlwydd oed!' Ond pa ryfedd ei bod hi'n gweld ei ffrind mor ifanc a hithau ei hun mor hwyliog a heini ar ddydd ei phenblwydd yn 90 oed? Llongyfarchiadau a phen-blwydd hapus i chi, Mrs Jones.**

## CAEATHRO

**Clive James, Hafan, Bryn Gwna**
**679501 (gwaith), 677438 (cartref)**

**Gwasanaethau'r Capel.** Disgwylir y canlynol i wasanaethu ar y Suliau canlynol ym mis Mehefin:

1. Parchg W. R. Williams (2)
8. Mr Huw Jones (2)
15. Parchg W. R. Williams (2)
22. Parchg H. Gwynfa Roberts (2)
29. Parchg W. R. Williams (10)

Gorffennaf:

6. Mr John Roberts (2)

**Adeiladau Gwag.** Mae'n braf gweld rhywun yn mynd a dod o'r hen swyddfa bost unwaith eto ac edrychwn ymlaen i weld yr adeiladwyr yn dechrau ar y gwaith o'u trosi yn ddau fflat. Araf iawn yw

## CEUNANT

**Trystan a Sioned Larsen**
**Bodafon. Ffôn: (01286) 650799**

**Croeso** i John, Glenys, Tomos a Nia i Glasfryn. Pob hapusrwydd i chwi fel teulu yma yng Ngheunant.

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

cwblhau cyfnewid y gweithredoedd ynglŷn â'r tŷ capel a'r festri. Ar y llaw arall ni fu unrhyw symudiad o gwbl ynglŷn â gwerthiant tafarn Bryngwna — ac eithrio cadwyn a chlo ar draws y fynedfa i'r maes parcio.


**Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?**
**YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);**
**YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu**
**YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)**
**Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH**
**Andre (Bethel/Llanberis)**
**Bryn (Môn)**
**Euryn (Caernarfon a'r cylch)**
**John Eifion (Penisarwaun)**
**CDH**
**Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)**
**Ffôn: (01248) 355055**




**Aled Jones**
Peiriannydd Gwres Canolog a Phlymio
**Y GORLAN**
**FFRWD CAE DDU**
**BONTNEWYDD**
**(01286) 830412**



Cerrig Beddau
**Glanhau y Garreg ac Ailbeintio Llythrennau**
**Ffoniwch am bris**
**(01286) 830041**



**SNOWDON KITCHENS**
**57 STRYD FAWR**
**LLANBERIS**
**(01286) 870555/870443**
**CEGINAU, TEILS SERAMIG ANRHEGION**



**'Dyw cegin SNOWDON KITCHEN yn costio DIM MWY na cheginau'r siopau mawr DIY, ond cymharwch ansawdd ein ceginau ni. Rydym yn cynnig:**

- Ceginau cadarn da mewn derw, castanwydden (chestnut) a phîn
- Dewis eang o lamineiddiau modern
- Corff mewn dewis o 8 lliw cydnaws
- Droriau a cholynnau cadarn
- Dewis da o wahanol feintiau
- Maint arbennig ar gael os oes angen
- Crefftwyr lleol yn ymfalchïo yn eu gwaith
- Prisiau rhesymol ar gyfer gosod a dodrefnu
- Llythyrau canmol a chwsmeriaid bodlon
- Gwerthu gonest, prisiau gonest

**HEFYD:GWASANAETH NEWID DRYSAU A 'WORKTOPS'**
**AR AGOR SAITH DIWRNOD YR WYTHNOS**
**FFONIWCH PETER ROOKE AM BRISIAU A GWASANAETH CYNLLUNIO DI-DÂL**



**Y Bistro**
**LLANBERIS**
**Ffôn: 871278**
**PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS**
**LLE DA I WLEDDA**
Beth am **Ffwffe Enwog Nerys** (rhwng 20 - 70) i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion
**Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro**
**Nos Wener olaf bob mis**



**DAFYDD OWEN**
**TRYDANWR**
Pob math o waith trydanol a Larwmau Lladron
Aelod o'r NICEIC
National Inspection Council for Electrical Installation Contracting
APPROVED CONTRACTOR
**11 Rhes Faenol**
**LLANBERIS**
**Ffôn: (01286) 871680**

# WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

**Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556**



**Merched y Wawr.** Cyfarfu'r gangen yn y Ganolfan, nos Iau, 24 Ebrill, dan lywyddiaeth Marian Wyn Jones. Dymunodd Marian ar ran y gangen wellhad buan i Mrs Mair Williams, Cefn Coed, sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

Croesawyd ein gŵr gwadd am y noson, sef Dafydd Thomas, Cae'r Gorlan, sydd â siop trin gwallt ym Mhwllheli. Cawsom noson hwyliog, llawn syniadau ac ychydig o gyfrinachau'r gwaith. Model Dafydd ar y noson oedd y ferch ifanc a welir yn y llun – dydi hi'n bishin 'dwch!

Mrs Doris Williams a Mrs Glenys Jones oedd yn gofalu am y te ac enillydd y raffl oedd Mrs Doris Williams.

**Colledion.** Yn ystod y mis collwyd tair o gymeriadau hoffus y pentref.

Yn frawychus o sydyn bu farw Mrs M. Roberts yn ei chartref, Bod Afon. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w thair merch, Ifanwy, Catrin a Marilyn yn eu profedigaeth drist.

Yn dawel yn ei chwsg bu farw un o drigolion hynaf y pentref – Mrs Williams, Dwyfor. Cydymdeimlwn â Catherine, Iona ac Eric yn eu profedigaeth o golli mam.

Cydymdeimlwn â Mr Aled Williams, Llwyn Celyn, yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer, Miss Menai Williams, Maes Teg.

**Adref o'r Ysbyty.** Croesawn Mrs Spark, Tremnant, adref wedi iddi dderbyn triniaeth i'w llygaid yn Ysbyty Gwynedd; ac hefyd i Mrs Jane Roberts, Glaslyn, 24 Bro Waun.

**Yn yr Ysbyty.** Anfonwn ein cofion at Mrs Clough, Ynysoedd; Mr Ifor Bracegirdle, Bro Waun; a Mr Glyn Williams, Tref Eilian, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

**Genedigaeth.** Llongyfarchiadau i Helen a Tony Brown, Ael-y-bryn ar enedigaeth mab bychan, Siôn, brawd bach i Rose.

Daeth Rob ac Alma Jones yn daid a nain i Miriam, merch fach i Nan Wyn a Huw a chwaer fach i Robin Gronw.

**Dathlu Pen-blwydd.** Llongyfarchiadau i Gwenno Owen, Glyn Awel, a Llion Williams, Gwernydd. Bydd y ddau yn dathlu cyrraedd eu deunaw oed yn ystod mis Mai. Dymuniadau gorau ichi i'r dyfodol.

**Cywiriad.** Gwelwyd llun aelodau'r Clwb Bowlio yn rhifyn diwethaf o'r Eco yn nodi mai ym mis Mai eleni yr oeddynt yn cystadlu yn genedlaethol yn Llanelwedd, ond ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf y mae'r gystadleuaeth.

**Mai Roberts, Bodafon:** Dymunwn ni, Ifanwy, Catrin a Marilyn ddiolch i bawb a fu mor garedig wrthym yn ein colled a'n galar. Bu'r holl deyrngedau hardd a gawsom i Mam yn eli ar ein briw. Gawn ni yn arbennig, gan na allwn wneud hynny yn bersonol, ddiolch i'r rhai hynny a anfonodd roddion atom yn ddi-enw. Trysorwn y tynerwch a'r gofal a ddangoswyd i ni ar adeg mor anodd.

*'Sŵn adeiladu daear newydd a nefoedd newydd*
*Ar lawr y gegin oedd clocs Mam i ni.'*

**Enillwyr Clwb 300 mis Ebrill** – £40: Mrs B. Hughes, Collfryn; £25: Mrs Mair Parry, Deuryn; £10: Mr S. C. Tyrrell, Garreg Wen.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr



*Aelodau Parti Cân Actol Waunfawr fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.*




*Mandy Williams yn cyflwyno siec i Rhian Evans, Trysorydd cangen Waunfawr o'r Urdd. Casglwyd yr arian gan staff a chwsmeriaid Snowdonia Parc at gostau mynd i'r 'Steddfod.*

**Adran yr Urdd.** Yn ystod y mis mae'r Urdd wedi bod yn brysur iawn yn codi arian at gostau mynd a'r plant i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ym Mro Islwyn. Cynhaliwyd noson gyda 'Almanac' yn Parc Snowdonia, a diolchi'r i 'Almanac', staff a chwsmeriaid y dafarn (gweler y llun).

Cynhaliwyd noson lwyddiannus o adloniant yn y Ganolfan gyda Dafydd Iwan, Grace Dawson a 'Spice Girls Waunfawr' a chafwyd cyfle i weld y plant yn perfformio'r gân actol.

Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson ac i unigolion a Chyngor Cymuned Waunfawr am roddion ariannol hael. Pob lwc i Anti Gina a'r plant yn yr Eisteddfod.

ALOE VERA

Am well iechyd yn naturiol, profiwch nerth ALOE VERA. Canfuwyd iddo roi esmwythâd i lawer sy'n dioddef o afiechydon cyffredin fel:- Cryd y Cymalau, Mygdod, Dŵr Poeth, I.B.S., Afiechydon y Croen, Diffyg Egni Afiechydon yr Arennau, Pwysau Gwaed a.y.y.b.
am fwy o fanylion, cysylltwch ag Alun, Ffôn: (01248) 670746

Wavell Roberts
CIGYDD
London House
LLANRUG
Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

ANTUR WAUNFAWR
GŴYL ALBAN HEFIN
ANTUR WAUNFAWR
PARC ANTUR WAUNFAWR
DYDD SADWRN, MEHEFIN 21
Fe fydd Antur Waunfawr yn cynnal gŵyl yn ein Parc Natur i ddathlu a chlodfori yr amgylchedd, byd natur a chadwraeth. Bydd nifer fawr o stondinau ac arddangosfeydd ar gael drwy'r dydd ynghyd â sgyrsiau ar darddiad yr hen ŵyl Geltaidd hon gan Twm Elias, a sgyrsiau eraill.
Bydd nifer o weithgareddau ac adloniant eraill yn ystod y dydd gan gynnwys straeon i blant, peintio wyneb, cerddoriaeth draddodiadol a gwerin, adar ysglyfaethus, helfa drysor i blant o amgylch y Parc, coelcerth, a llawer mwy . . .
LLUNIAETH YSGAFN AR GAEL
O 10 O'R GLOCH Y BORE TAN GYDA'R NOS
DOWCH YN LLU!

W.J. GRIFFITH
PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANALOG
Pant Tirion, Llanrug
Ffôn: (01286) 673248
Gosodwr
Nwy
Cofrestredig
Corgi
Aelod o'r Association of Mechanical Services Contractors
Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

**Cymanfa Dosbarth Padarn.** Yn y Gymanfa flynyddol a gynhaliwyd eleni yng nghapel Cysegr ddydd Sul, Mai 4ydd, gwobrwywyd y canlynol o Ysgol Sul Brynrefail am eu gwaith ym maes yr Arhoiad Llafar: Caryl ac Awen Jones, Na Nog; Rhian ac Anna George, Sŵn yr Engan; Elen Williams, Glasfryn; ac Amy Lambert, Glandŵr. Llongyfarchiadau iddynt am eu gwaith.

**Cymdeithas y Chwiorydd.** Nos Iau, Mai 8fed, daeth y Gymdeithas ynghyd i'r Festri yng nghwmni rhai o'r brodyr. Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc oedd yn gyfrifol am y defosiwn. Cafwyd gair o groeso ac anfonwyd cofion at rai oedd yn analluog i fod yn bresennol gan y llywydd, Mrs Verna Jones. Cyflwynodd hefyd ŵr gwadd y noson, sef Mr Arwel Jones, Penisarwaun. Treuliwyd awr bleserus yn ei gwmni yn olrhain cefndir rhai o ganeuon Hogia'r Wyddfa dan y teitl 'Y Stori y tu ôl i'r gân.' Bu'r cyfan yn fwynhad pur fel ag y tystiodd nifer yn eu hymateb ar y diwedd. Diolchwyd yn swyddogol iddo gan Mrs Dilys Jones, Cytir. Paratowyd y baned gan Mrs Eleanor Jones, Na Nog a Mrs Ellen George, Sŵn yr Engan, a diolchwyd iddynt gan Mrs Jennie Hughes. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau, Mehefin 12fed pryd y disgwylir Mr Robin Jones, Bethel, i roi sgwrs.

**Genedigaeth.** Llongyfarchiadau i Mrs Megan Jones, Greuor Villa, ar ddod yn nain a Mrs Maggie Closs Parry, Bryniol, ar ddod yn hen nain unwaith eto. Ganed merch fach, Gwenllian, ar Fai 15fed i Medwen ac Aled Jones Griffith, Delwen, Y Groeslon.

**Sefydliad y Merched.** Nos Wener, Mai 2il, dan nawdd y gangen leol, cynhaliwyd Ffair Wanwyn lwyddiannus yn y Festri. Gwnaed elw o £200 i goffrau'r gangen. Enillwyr y raffl a'r gwobrau oedd: Delyth Jones, 11 Trem Eilian; Eleanor Williams, Bryn Rhydd; Dilys Jones, Cytir; Norman Williams, Godre'r Coed; Carol Houston, 2 Trem Eilian; Betty Owen, Tros yr Afon. Dyfalu pwysau torth frith: Lowri P. R. Williams, Godre'r Coed. Dymuna'r gangen ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

Nos Lun, Mai 18fed, cyfarfu'r gangen yn y Festri dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones, Cae Coch. Treuliwyd y noson dan arweiniad y llywydd yn trafod yr argymhellion ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol a gynhelir yn Birmingham. Mrs Verna Jones a Mrs Helen Morris oedd yng ngofal y lluniaeth. Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Gwawr Morris, oedd Mrs Gwenllian Edwards. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Mehefin 16eg, pryd y disgwylir Mrs Elaine Powell o Ddwyran, Ynys Môn, i roi profiad o Yoga i'r aelodau.

**Cofion.** Anfonwn ein cofion at Mrs Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog, sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch adref wedi cael gwellhad buan.

**Pen-blwydd.** Llongyfarchiadau oddi wrth y teulu oll, ffrindiau a chymdogion i Mr Richard Wyn Evans, Ty'n Buarth, a ddathlodd ei ben-blwydd yn 70 oed ar Fai 23ain.

**Eglwys M.C. Brynrefail.** Bydd trefn y gwasanathau fel a ganlyn ar gyfer mis Mehefin:

1. Parchg Gareth Alban, Llanwnda (10)
8. Parchg John Owen, Bethesda (5.30)
15. Parchg R. Gwilym Hughes, Caernarfon (10)
22. Mr O. J. Roberts, Bethesda (5.30)
29. SUL CYMDEITHAS Y BEIBLAU. Cyfarfod y Plant yng Nghefnywaun am 2. Cymanfa Ganu yn Sardis, Dinorwig, yng nghwmni Côr Meibion Dyffryn Nantlle am 6 o'r gloch.

★ Tacsi
★ Maes Awyr

CABS ERYRI

Yfwch chi Gyrrwn ni!

Ffôn: 871049/symudol 0831 429970
neu ffoniwch ni am ddim ar
National Cabline — Freephone 0800-123-444

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...




BYSIAU ARFON
LLANRUG
(Eric Morris)
Ffôn: (01286) 675175 a 677858

## CÔR YSGOL BRYNREFAIL

**Rhai misoedd yn ôl fel gyhoeddwyd yn yr *Eco* lun o Gôr Ysgol Brynrefail ar adeg symud yr ysgol i'r safle presennol. Bellach cysylltodd Gareth Pritchard, gynt o Dan-y-coed, gyda enwau'r aeldau.**

Mae Gareth yn awgrymru y bydd yn syniad i bobl weld rhai ohonynt yn y côr — allen nhw ddim canu nodyn mewn tiwn bryd hynny, na rŵan 'chwaith o ran hynny!). Dywed mai Meira Hughes, Llanelwy (Owen, Cae Corniog, Penisarwaun gynt) sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r enwau ac fe geisiodd yntau lenwi'r gweddill. Gofynnant am faddeuant os oes yna gamgymeriadau.

*Rhes flaen:* Catherine Ellen Griffiths, Mair Jones, Catherine Jones, Elizabeth Holland Roberts, Megan Trefor Jones, Miss Mair Hughes (yr athrawes gerdd), Beti Wyn Williams, Nancy Jones, Helen Lewis, Carys Jones, Buddug Owen a Margaret Valmai Jones.

*Ail res:* Rhian Owen, Marian Jones, Georgina Hudson, Rosalie Hudson, Beryl Evans, Nesta Jones, Morfudd Jones, Helen Rees Hughes, Jennie Morris, Olwen Rees Evans, Alwena Jones.

*Y drydedd res:* Alwyn Jones, Margaret Hancock, Brenda Thomas, Gwyneth Williams, Buddug Hughes, Ann Fraser Owen, Margaret Jones, Iona Jones, Nan Jones, Menai Pritchard, Nora Munro, Meira Owen, Gwenda Jones.

*Ar ben ei hun:* Islwyn Williams.

*Y bedwaredd res:* Dafydd John Humphreys, Brian Hughes, Griff Charles Morris, Olive Roberts, Margaret Jones Evans, Gwyneth Owens, Mair Butler, Helen Jones, Dilys Wyn Roberts, Rona Williams, Nan Thomas, Eryl Hughes, Alun Jones.

(Mae'r cefn yn dipyn o gymysgfa.)

*Y bumed res:* John Tegla Williams, Haydn Williams, Heddwyn Evans, Billy John Williams, Dennis Arthur Jones, Alan Jones, Gwilym Wyn Williams, Robin Jones, Ronald Wyn Roberts, John Glyn Jones, Gareth Wyn Pritchard, Tegid Jones, Gwynfor Roberts.

*Rhes gefn:* Terry Maxwell, Tudur Rowlands, Emlyn Sherrington, Iwan Prys Williams, Ifor Pritchard a Meurig Parry.



O gofio mai *'Forty Years On'* (ie, cân Saesneg!) oedd cân Ysgol Brynrefail yn y dyddiau hynny, dywed Gareth ei bod yn briodol iddo anfon llun o dîm pêl-droed yr ysgol o'r cyfnod hwnnw.

Yn ôl a gofiai nid oedd ganddynt gaeau chwarae yn ystod y flwyddyn gyntaf wedi iddynt symud o Frynrefail i Lanrug a byddai'n rhaid chwarae pob gêm oddi cartref. Yn Amlwch y tynnwyd y llun hwn gan Mrs Mary Vaughan Jones (Waunfawr) ym mis Hydref 1956. Yn ysgod gwanwyn 1957 y cafwyd y cae chwarae cyntaf, sef Parc Beili, y tu ôl i'r Efail yng Nglan Moelyn — tipyn o waith cerdded cyn bob gêm! Sylwch ar y crysau — hen rai'r tîm rygbi! Gyda llaw, ar Barc Beili y byddai tîm pentref Llanrug yn chwarae ar un cyfnod ar ôl gadael caeau Cefn Llwyd.

Aelodau'r tîm oedd:

*Rhes gefn:* Arfon Jones, Dinorwig; Brian Davies, Llanberis; Ifan Jeffrey Owen, Llanberis; Gareth Roberts, Cwm-y-glo; a Brian Hughes, Deiniolen.

*Rhes flaen:* Gareth Pritchard, Tan-y-coed; y diweddar Gwyn Griffiths, Tan-y-coed; Brian Williams, Bwlch, Cwm-y-glo (Capten); Eryl Hughes, Deiniolen; Huw Arfon Jones, Cwm-y-glo; a Gwilym Pritchard, Deiniolen.

R. M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

# LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263**

**Merched y Wawr.** Estynnodd Mair Huws, y llywydd, groeso cynnes i'r rhai a ddaeth i'r Cyfarfod Blynyddol, nos Fawrth, 13 Mai.

Llongyfarchwyd Mary Roberts, Gwyndy, ar gael ei hethol yn Is-ysgrifennydd Cenedlaethol y Mudiad. Cadarnhawyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol Mai 14, 1996, fel rhai cywir. Bu'r dasg o ethol swyddogion yn gyfleus dros ben. Is-lywydd 1997-98 fydd Margaret Parry; Is-ysgrifennydd: Gwena Roberts; Is-drysorydd: Ann Lloyd; gyda Olwen, Mary, Beryl, Megan a Julie yn aelodau o'r pwyllgor. Cytunodd Julie i gynrychioli is-bwyllgor Celf a Chrefft; Beryl, is-bwyllgor yr Anabl; Phyllis ac Ann Gibbins is-bwyllgor y Dysgwyr; Pat is-bwyllgor Chwaraeon; Ann a Phyllis, gohebwyr y wasg; a Menna fel dosbarthwr *Y Wawr*. Gwirfoddolodd Gwenda i ofalu am y Llyfr Lloffion. Atgoffir y rhai fydd yn mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala am y Sioe Ffasiynnau a gynhelir yn Neuadd y Cyfnod. Gobeithir gwneud sgarff mwya'r byd at OXFAM. Os oes unrhyw un yn dymuno cyfrannu, derbynnir yn ddiolchgar ddarnau naw modfedd o led o unrhyw hyd, unrhyw bwyth, mewn gwlân dwbl.

Bydd arddangosfa cynnyrch Celf a Chrefft y rhanbarth yn yr Aelwyd, yng Nghaernarfon, Mehefin 11 am 7.30 o'r gloch. Pris mynediad fydd £1. Gwirfoddolodd aelodau i gasglu at Ymchwil y Galon o 11- 29 Awst.

I orffen y Cyfarfod Blynyddol cafwyd sgwrs ddifyr dros ben gan Julie Jones am waith cwilsennu. Crefft hynafol o rowlio papur ac yna'n ei drefnu yn batrwm. Gwnaeth hyn drwy rhowlio'r papur rhwng bys a bawd neu drwy ddefnddio plun gyda hollt ynddi. Credir bod y grefft yn cael ei hymarfer gan fyneich yn y bymthegfed ganrif i addurno paenli a sgriniau y mynachlogydd, ac mae wedi bod mewn ffasiwn byth ers hynny. Roedd merched oes Fictoria yn hoff o greu amrywiaeth o eitemau ac mae llawer ohonynt wedi goroesi hyd heddiw. Mae pob cynllun wedi'i rowlio yn unigol a'i gysodi gyda llaw, ac felly mae pob darn a greir yn unigryw, ac felly, yn arddangosfa gywrain o gasgliad Julie, o'i chardiau a thlysau. Diolchwyd iddi am wledd i'r llygad gan Megan a llongyfarchwyd hi am ei Chymraeg safonol, o gofio mai dysgwraig oedd ychydig fisoedd yn ôl. Diolchwyd i Margaret Parry a Nan Humphreys am y baned. Enillwyd y raffl gan Margaret Jones.

Bu Margaret, Megan, Mary, Ann Lloyd ac Ann Ifans yng Ngŵyl Wanwyn y pum rhanbarth yn Neuadd John Phillips, Bangor, ddydd Sadwrn, Mai 10fed. Diolchodd Ann Ifans i Margaret Roberts am drefnu diwrnod i'w gofio i tua pedwar cant o aelodau. Thema'r diwrnod oedd 'Synnu'r Synhwyrau', ac yng nghwmni Eigra Lewis Roberts; Wil Jones, Croesor; Maureen Rhys; John Ogwen; Marged Jones; Meg Elis; Arfon Williams, Cwmtirmynach; Dylan Cernyw a pharti llafar cangen Caernarfon, ac Eira Wyn Huws, cafwyd blas emheuthun ar y gweld, clywed, blasu, arogli a'r teimlo. Swynwyd pawb gan y gwesteion ac roedd aelodau cangen Llanrug yn ymfalchïo yn nawn Eira Wyn Huws gyda'i chwiltio a'i defnyddiau a'i ffordd hwyliog tu hwnt o gyflwyno ar y llwyfan. Diolchwyd i Mary Roberts gan Lywydd Cenedlaethol y mudiad am y trefniadau trylwyr. Diolch Mary!

I orffen y tymor bydd y gangen yn ymwelg â Pili Palas, Porthaethwy, nos Fawrth, Mehefin 10fed. Pris: £11.50 sy'n cynnwys mynediad a sgwrs gan Huw John Huws a bwyd. Arian parod i Nan Humphreys rhag blaen neu erbyn Mehefin 2il fan bellaf, os gwelwch yn dda. Bydd y bws yn cychwyn o sgwâr Llanrug am 6.20 ac yna ym Mhenisarwaun am 6.30. Cesglir arian y bws ar y noson, oddeutu £2. Bydd croeso i gyn-aelodau neu aelodau newydd ymuno â ni.

**Clychau'r Grug.** Daeth tymor i ddiddanu'r ymwelwyr yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis, ac mae'r genod yn brysur yn dysgu alawon gwerin ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol y Bala. Da deall fod Ann Thomas wedi gwella'n dda rŵan wedi'r ddamwain i'w throed. Braf oedd ei chroesawu'n ôl atom.

**Llongyfarchiadau** i Jason Lloyd Jones, 23 Glanffynnon, ar ennill ei seithfed medal am nofio. Erbyn hyn mae Jason, sy'n naw oed, wedi cyrraedd 600 medr. Da iawn.

**Gwellhad Buan.** Anfonwn ein cofion i'r canlynol:

Mrs Heulwen Williams, 5 Glanmoelyn, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ond sydd gartref bellach.

Mrs Katie Davies, 34 Bro Rhyddallt sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

Mr Harri Roberts, Rhes Plas Tirion, yntau wedi derbyn llawdriniaeth ac wedi dod gartref.

Mrs Katie Griffiths, Fron Hyfryd, Ffordd yr Orsaf. Bu Mrs Griffiths yn Ysbyty Gwynedd am wythnosau lawer ond mae hi wedi gwella digon i gael dod gartref.

Mrs Jennie Parry, Morannedd, Hermon, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Maelor, Wrecsam, yn dilyn damwain yn yr Wyddgrug.

Brysiwch wella i gyd.

**Ysgol Gynradd Llanrug.** Mae llawer o blant yr ysgol wedi bod yn brysur ym myd chwaraeon yn ddiweddar. Enillodd Rebecca Owen, Bl. 6, ail wobr gyda thîm tenis Caernarfon mewn cystadleuaeth ym Mharc Eirias, Bae Colwyn.

Bydd Iola Non Hughes a Suzanne Thomas, Bl. 5, yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth gymnasteg yng Nghaerdydd, yn cynrychioli Clwb Gymnasteg Eryri. Pob lwc iddynt.

Fel rhan o'u gwaith thema 'Mynd am Dro', cafodd Bl. 1 a 2 ymweliad gan Mr Raymond Williams a Miss Roberts er mwyn trafod diogelwch y ffordd.

Enillwyr Clwb Cant mis Mai oedd — £24: Robin Llywelyn Williams, Sŵn y Gwynt (80); £12: Gwen Edwards, Haulfryn (114); £10: Osian Llyr Owen, 35 Glanffynnon (8); £5: Alex Lynes, Tŷ Newydd (29); £4: Llinos Wyn Parry, 2 Corlan y Rhos (77).

**Pierce:** Dymuna Gwynne, Ian a theulu y ddiweddar Elizabeth Pierce, Prysgol, Ffordd Clynnog, Pen-y-groes, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch i Mr a Mrs Malcolm Gay a'r staff, Llys Eiddon, Llanrug, am eu gofal arbennig. Hefyd i'r Parchedigion W. R. Williams a Gwynfor Williams am y gwasanaeth ac i Mr Myrddin Pritchard a Mr Gwynfor Jones am y trefniadau trylwyr.


**GARTH MAELOG**

**PET CENTRE AND GROOMING SALON**

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

**STRYD FAWR, LLANBERIS 870840**

FINE ART TRADE GUILD

**ORIEL CWM**

**Cwm y Glo**

**Ffôn/Ffacs: (01286) 870882**

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa
o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

**Richard S. Humphreys**

**OSMOND SHAW**
**DEINIOLEN**

GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
**(01286) 870545**

**GWYN JONES**

**FFENESTRI ERYRI**

**GARTH ISAF, LLANRUG**

**(01286) 650764**

**neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741**

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ *Porches*
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

**GORSAF BETROL**

**Esso BERAN**

**DEINIOLEN**

**Ffôn: (01286) 871521**

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod

Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

**TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!**

# LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

**Ffair Wanwyn.** Cafwyd ffair hynod o lwyddiannus yng Ngwesty Dolbadarn nos Iau, 8 Mai â'r elw tuag at Gronfa Apêl Tŵr Eglwys Sant Padarn. Dymuna'r Rheithor, y Curad a'r Wardeiniaid ddiolch o galon i bawb am eu cefnogaeth. Roedd byrddau o gacennau, dillad wedi'u gwau, bric a brac, a chynnyrch cartref. Diolch unwaith eto i Mr Aneurin Jones am roi rhyddid ei westy inni, ac i Mr Raymond Jones y postfeistr am ein diddanu mor hwyliog.

Enillwyr y raffl oedd: 1, Joe Bethesda; 2, John Gareth; 3, 46 Maes Padarn; 4, Bryn Bella; 5, Williams Carlinig; 6, Shirley Nant Peris; 7, John Garage; 8, Swyddfa Caernarfon; 9, C. Bee; 10, Bryn Bella; 11, Nancy Eva; 12, 23 Stryd Goodman; 13, Swyddfa Caernarfon.

**Undeb y Mamau.** Pnawn Mawrth, 6 Mai, cynhaliwyd y pwyllgor misol yn festri Eglwys Sant Padarn. Y gŵr gwadd oedd Mr Peter Day, Tynygongl, Ynys Môn, a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo ar sut i atal tân yn ein cartrefi; a phe bai tân yn digwydd beth i'w wneud. Dangosodd gwahanol fathau o ddiffoddwyr tân ac yr oeddynt yn hawdd i'w defnyddio. Pnawn Jiddorol dros ben. Diolchwyd iddo ac hefyd i Mrs Jean Roberts a Mrs Clara Roberts am y te gan y Parchg Emyr Owen. Enillwyd y raffl gan Mrs Audrey Evans.

Cafwyd adroddwyd gan y Rheithor am yr ymweliad i Fachynlleth ym mis Gorffennaf.

Drwg gennym glywed fod un aelod, sef Mrs Betty Williams, Maes Padarn, wedi cael damwain yn ei chartref.

**Llwyddiant Meddyg.** Llongyfarchiadau i Dr Lisa Rudkin ar ei llwyddiant yn ei arholiadau meddygol, M.R.C.Psych (Part 1), i fod yn gofrestrydd meddygol. Mae Lisa yn seiciatrydd yn Ysbyty Littlemore, Rhydychen.

**Côr Meibion Dyffryn Peris.** Yng Ngwesty Dolbadarn, nos Sadwrn, 26 Ebrill, cafwyd noson arbennig o dda yng nghwmni Côr Meibion Dwyfor gyda'r Côr ar ei orau a chafwyd eitemau unigol hefyd. Trefnwyd y noson gan gangen Plaid Cymru ac roedd elw'r noson yn mynd i Gôr Meibion Dyffryn Peris. Cyflwynwyd y noson a diolchwyd i'r Côr gan Arwel Jones. Trefnwyd raffl gan Roy a'r enillwyr oedd: 1, Meirion Nant Peris; 2, Maldwyn C.M.D.; 3, Robin; 4, Iola Evans; 5, Bob Lloyd; 6, Meirion; 7, Ernie C.M.D.; 8, Tecwyn; 9, Gwenfair D.B.; 10, Wenda D.B.

Nos Wener, 9 Mai, trefnwyd noson o Gaws a Gwin gan chwiorydd y Côr yng Ngwesty Dolbadarn. Llawer o ddiolch i'r genod am y gwaith maent yn ei wneud i godi arian i goffrau'r Côr. Roedd yr elw'n mynd tuag at gostau'r Côr i Luxembourg ym mis Medi. Cafwyd eitemau gan y Côr ynghyd ag ambell unawd. Diolch i Arwel unwaith eto am arwain y noson a diolch i bawb a gefnogodd y noson.



*Aelodau Ysgol Sul Eglwys Sant Padarn gyda Chwpan Goffa Lowri Pritchard am y gwaith celf gorau yng Ngŵyl Gorawl Eryri.*



*Gwen Williams (ail o'r dde) a ddewiswyd yn Frenhines Carnifal Llanberis eleni. Yn y llun hefyd mae Angharad, Andrew a Carys fydd yn aelodau o'i llys.*

**Capel Jerusalem.** Mewn cyfarfod o'r Gyfeillach o dan lywyddiaeth Hugh R. Jones ar y 6ed o Fai, cafwyd sgwrs ddifyr gan Mrs Vera Griffith yn sôn am ei gyrfa fel athrawes a'r profiad o wrando ar ddywediadau a helbulon plant mewn gwahanol ysgolion. Cafwyd prynhawn hapus a gorffennwyd gyda sgwrs a lluniaeth ysgafn. Bydd y cyfarfod nesaf ar y 3ydd o Fehefin gyda Griff a Pearl o Ganada yn dangos lluniau a hanes y wlad lle maent wedi ymgartrefu ynddi. Croeso cynnes i bawb.

**Carnifal.** Cynhelir y Carnifal eleni ddydd Sadwrn, Gorffennaf 19. Mae'r pwyllgor yn awyddus iawn i weld rhagor o blant ac oedolion yn cymryd rhan yn y cystadlaethau gwisg ffansi eleni er mwyn sicrhau llwyddiant y Carnifal. Bydd manylion llawn am weithgareddau wythnos y Carnifal yn rhifyn nesaf o'r *Eco*.


**Cywiriad.** Yn y rhifyn diwethaf roedd llun o Gadetiaid y Flwyddyn yng Nghangen Llanberis Urdd Sant Ioan. Enwau Chris Allsup a Louise Price ddylai fod o dan y llun. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt ar eu llwyddiant.

**Ysgol Dolbadarn.** Bu tîm yn cynrychioli'r Ysgol yn y Gala Nofio flynyddol a gynhaliwyd yng Nghaernarfon, ddydd Mercher, Mai 21.

**Capel Coch.** Bu plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yn y Gymanfa a gynhaliwyd yng Nghapel y Cysegr, Bethel, ddydd Sul, Mai 4. Cawsant wobrau am y gwaith dysgu ar gyfer yr Arholiad Llafar. Mae'r Cyfarfod Plant wedi dod i ben am y tro, a byddwn yn ailddechrau'r cyfarfod wedi gwyliau'r haf. Diolch i'r plant a ddaeth yn rheolaidd ers mis Medi. Bydd rhai ohonynt yn symud i Ysgol Brynrefail bryd hynny ac felly'n rhy hen i ddod i'r Cyfarfod Plant. Cofiwch y bydd croeso i chi ddod i'r cyfarfod ieuenctid ar nos Fercher ym mis Medi. Mae'r cyfarfod hwnnw hefyd wedi gorffen am yr haf ers yr wythnos ddiwethaf. Dymunwn ddiolch i Alan Pritchard, Llys Awel, Nant Peris, am rodd o fwrdd snwcer at ddefnydd yr ieuenctid yn Capel Coch.

**Cymorth Cristnogol.** Nos Fercher, Mai 14, cynhaliwyd gwasanaeth undebol yn Nant Padarn yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol. Cymerwyd rhan gan aelodau a gweinidogion eglwysi'r pentref. Bu rhai o aelodau'r eglwysi yn casglu arian at yr apêl o ddrws i ddrws yn ystod yr wythnos. Diolch i bawb a gyfrannodd at y casgliad a diolch yn arbennig i'r casglyddion.

**Y Cwmni Drama.** Nos Lun a nos Fawrth, Mai 19 a 20, cyflwynodd Cwmni Drama Llanberis y gomedi, 'Mae Newid yn Change' gan William owen yn Theatr Fach Gorffwysfa. Roedd y set newydd a adeiladwyd gan Gareth Morris yn cael ei defnyddio am y tro cyntaf. Roedd digon o hwyl a chwerthin a'r gynulleidfa'n amlwg wrth eu bodd. Cyn y perfformiad cafwyd cyflwyniad difyr o straeon a cherddi ysgafn gan Mr Guto Roberts, Y Groeslon, a diolchwyd iddo am ei gyfraniad i hwyl y noson. Rhannwyd elw'r ddwy noson rhwng y Cwmni Drama ac Ysgol Dolbadarn.

GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

**Uned 1, Fferm Bryn Afon**

**LLANRUG**

**ffôn: (01286) 650349**

**(0589) 899901**


**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**

**CANOLFAN CARPEDI**

**WAUNFAWR**

**Ffôn/Ffacs: 650291**

**Ar agor**
9-7pm
9-5pm Sadwrn
**Ar Gau**
Sul a Mercher



Dewis eang
o Welyau a *3P/Suites*.
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

**GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK**

**Gwynedd Hotel**
**& Restaurant**

**Llanberis 870203**

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

**Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn.** Enillwyr 1/5/97 yw – £35: Mrs M. Thornton, 7 Fron Goch; £25: Mrs E. Evans, Craigwel; £15: Mrs C. Hughes, 1 Stryd Ianci; £10: Mrs M. Jones, 6 Blaen Ddôl; £5: Mrs J. Roberts, 'Rallt Isaf.

**Pêl-droed:** Llongyfarchiadau i'r tîm pêl-droed dan 15 a enillodd gwpan Cynghrair Gwyrfai nos Wener, Mai 16. Mae'r tîm dan 13 oed wedi cyrraedd rownd derfynol un o gwpanau'r Gynghrair hefyd, a'r tîm dan 9 oed wedi cyrraedd y rownd gyn-derfynol.

**Llongyfarchiadau** i Iona Vaughan a Rodney Collins ar eu dyweddïad. Dymuniadau gorau oddi wrth y ddau deulu.

**Diolchiadau**

Dymuna Mrs Dorothy Williams, 23 Stryd Fawr, Llanberis, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod gartref. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Alun Vaughan ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ar 16 Mawrth.

Dymuna Arfon Phillips a'r teulu ddiolch o galon am y llu cardiau a phob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt o golli gwraig, mam a nain, Dilys Phillips, Erw Wen, Coed y Glyn. Diolch i'r meddygon a'r nyrsus am eu gofal gartref ac yn War Tudno, Ysbyty Gwynedd. Diolch hefyd i'r Parchedigion Philip Hughes ac Emyr Owen, a'r perthnasau a'r ffrindiau oll, ac i'r cymdogion am eu caredigrwydd mawr. Diolch am y rhoddion hael tuag at apêl Tŵr Eglwys St. Padarn a Hospis yn y Cartref.

Dymuna Phyllis Jones, Dôl Elidir, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y rhoddion a'r cardiau niferus a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 60 oed. Dioch i chwi i gyd:

MAM

Un lawen â gwen gynnes – un gyfiawn
Llawn gofal dirodres,
Un deg a gwir gymdoges
Yn llon, mae'n byw er ein lles.

B.J.


# NOSON LAWEN

**ER BUDD CYMDEITHAS MOTOR NEURONE**

**YNG NGHLWB CYMDEITHASOL LLANBERIS**

**NOS WENER 6 MEHEFIN 1997**

**gyda**

**CHÔR MEIBION DYFFRYN NANTLLE**

**SINDORF ARIAN DEINIOLEN**

**RAY JOHN (Raymond Post)**

**Drysau'n agored am 7 p.m.**

**Bingo am 7.30 p.m.**

**Rafflau, etc**

**Mynediad: £1**




*Rhai o gystadleuwyr llwyddiannus Eisteddfod Llanberis.*



*Ann Marie, enillydd Cwpan Coffa Miss Williams, Summer Hill.*

## MYFYRIWR Y FLWYDDYN




Mae gŵr ifanc o Lanberis wedi ennill anrhydedd 'Myfyriwr y Flwyddyn' yn Ngholeg Menai. Dilyn cwrs plastro mae Llifon Wyn Owen, 9 Stryd y Wyddfa ac y mae newydd gwblhau ei flwyddyn gyntaf yn y coleg. Mae bellach wedi cwblhau ei gwrs NVQ lefel 2 mewn gwaith plastro, a bydd yn symud ymlaen i lefel 3 y cwrs y flwyddyn nesaf. Yr oedd safon uchel iawn i'w waith yn ystod y flwyddyn yn ôl ei athrawon, ac yr oedd Llifon yn llwyr deilyngu'r anrhydedd. Nid myfyriwr llawn-amser mo Llifon er hynny, gan ei fod yn gweithio i Mark Phillips, adeiladydd lleol o Stryd Newton, Llanberis, ac mae'n gwerthfawrogi'r cymorth a'r gefnogaeth a gaiff gan ei gyflogwr.

Cyflwynwyd plac yn cofnodi ei lwyddiant iddo yn ogystal â set o offer arbennig at ei waith. Cynrychiolydd rhanbarth Cwmni British Gypsum sy'n noddi'r wobr a gyflwynodd yr offer iddo mewn seremoni arbennig yn y coleg.

Mae Llifon yn weithgar iawn yn Llanberis trwy ei wasanaeth i Urdd Sant Ioan. Er nad yw ond 18 oed mae'n hyfforddi rhai o blant yr Adran leol. Mae wedi ennill cymhwyster fel hyfforddwr ynglŷn â diogelwch yn y gweithlu. Ac, wrth gwrs, ef yw dyn cymorth cyntaf Clwb Pêl-droed Llanberis. Dechreuodd helpu ei dad, Gwilym, efo'r gwaith hwnnw pan oedd yn dechrau yn yr ysgol uwchradd ac ers tair blynedd mae wedi bod yn gwneud y gwaith ar ei ben ei hun. Dair blynedd yn ôl cyflwynwyd Tlws yr Eco iddo am ei gyfraniad i'r Clwb Pêl-droed.

Llongyfarchiadau mawr iddo ar ei lwyddiant a dymunidau gorau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn y coleg.

**NANT PERIS**

**Ann Cumberton, Gwastadnant**
**Ffôn: (01286) 870356**

**Camera yn ngofal John Pritchard Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390**

**Penblwydd Hapus** i Sara Davies, 1 Tan y Bryn, yn 18 oed ar Fehefin 23ain. Dymuniadau gorau oddi wrth y teulu i gyd.

**Gohebydd Newydd.** Diolch yn fawr i Ann Cumberton, Gwastadnant, am ei pharodrwydd i fod yn ohebydd yr *Eco* yn y Nant. Cofiwch roi unrhyw newyddion iddi hi o hyn allan. Ei rhif ffôn yw **870356.**


Cefnogwch ein Hysbysebwyr


## DRAENOG



**Peidiwch synnu os bydd dyn y siop chips yn Neiniolen yn rhoi'r pot halen yn sownd wrth gadwyn o hyn allan. Daeth dyn diarth heibio'n ddiweddar a gofyn iddo a gâi o brynu'r hen gar yng ngwaelod yr ardd. Cafodd y dyn fenthyg y car ar ei union er mwyn cael golwg iawn arno . . . a dyna'r tro diwethaf welwyd o'r dyn diarth a'r car . . .!**


MAE'R **SAMARIAID** YN GWRANDO YN ABBEY ROAD **BANGOR (01248) 354646**

# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

**Pierce:** Dymuna Gwynne, Ian a theulu y ddiweddar Elizabeth Pierce, Prysgol, Ffordd Clynnog, Pen-y-groes, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch i Mr a Mrs Malcolm Gay a'r staff, Llys Eiddon, Llanrug, am eu gofal arbennig. Hefyd i'r Parchedigion W. R. Williams a Gwynfor Williams am y gwasanaeth ac i Mr Myrddin Pritchard a Mr Gwynfor Jones am y trefniadau trylwyr.

**Eisteddfod y Pentref.** Fel y gwyddoch fe gynhelir yr Eisteddfod eleni ar ddydd a nos Sadwrn, 8 Tachwedd. Erbyn hyn mae beirniaid wedi eu sicrhau a bydd pob plentyn yn derbyn copi o'r testunnau cyn i'r ysgol gau dros wyliau'r haf. Os oes unrhyw un yn dymuno cyflwyno plac bychan neu rodd ariannol tuag at yr Eisteddfod yna cysylltwch â'r Ysgrifenyddes yn 4 Tan y Cae (670601). Cynhelir noson o ddawnsio ar nos Iau, Tachwedd 6ed a'r Celf a Chrefft nos Wener, Tachwedd 7fed. Bydd cyfarfod o'r pwyllgor nos Fercher, Mehefin 4ydd am 7.30 o'r gloch.

**Clwb Cant yr Ysgol.** Enillwyr mis Mai oedd — £20: Jean Jones, Wenallt (43); £12: Janes Jones, Rhosbodrual (86); £8: Wendy Roberts, Y Felinheli (28); £5: Gwen Jones, Caernarfon (94); £3: Rita D. Williams, Elan (78). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Cymdeithas Rhieni yr Ysgol Gynradd.** Nos Wener, 18 Ebrill, cynhaliwyd Sioe Ffasiynnau yn Neuadd y pentref i godi arian tuag at gronfa'r Gymdeithas. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i Chwaraeon Peris, Togs, a 14th Peak am fenthyg a threfnu'r dillad i'r plant eu gwisgo ar y noson. Diolch hefyd i'r disgyblion am wneud eu gwaith cystal.

Trefnwyd rhaglen brysur o weithgareddau ar gyfer gweddill y tymor. Wedi llwyddiant y noson Alfresco y llynedd fe drefnwyd noson debyg eleni ar nos Wener, 13 Mehefin am 6.30 p.m. yn yr Ysgol (tocynnau ar werth yn yr Ysgol).

I orffen y tymor hwn o weithgareddau fe drefnir Helfa



Greta Jâms ac Elen Price yn cerdded y 'cat-walk' yn y Sioe Ffasiynau.

Drysor i'w chynnal nos Wener, 11 Gorffennaf.

**Y Gymdeithas Lenyddol.** Nos Fawrth, 13 Mai, daeth tymor y Gymdeithas i ben gyda thaith ddirgel a phryd o fwyd. Cychwynnodd y daith o Fethel am chwech ac wedi crwydro drwy ardal Dwyran, Niwbwrch, Bodffordd a Llannerch-y-medd, cafwyd pryd blasus yn Amlwch.

Diolchwyd i Mr Goronwy Jones am drefnu'r daith ac i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y tymor gan y llywydd, Mrs Llinos Williams.

**Clwb 100 y Neuadd.** Enillwyr mis Ebrill — £20: Ceridwen Evans, Parciau Rhos (195); £10: Gwilym Jones, Cynfal, Post Bethel (93); £5 yr un: Jackie Jones, Tŷ Catrin (44); Ellis Jones, Caernarfon (27); Olwen Williams, 8 Stad Eryri (18); Beti Owen, Crud yr Awel (76); Jackie Williams, 1 Post Office Row (150); M. D. Williams, Awelon, Erw Bian (174); Ann Mercher, Roslyn, Tan-y-ffordd (165); Ellen Jones, Glas Ynys, Tan-y-buarth (212).



Dylan Thatcher Jones, Dylan Huws a Siôn Garth Owen yn barod am yr haul a'r glaw!

## CAU'R OCSIWN AC AGOR AMGUEDDFA

(Parhâd o'r dudalen flaen)

Chwarel iddynt. Roedd pwyslais o'r cychwyn yn naturiol ddigon ar y gwaith a wneid yn y Gilfach Ddu. Daeth 36,000 o ymwelwyr yn ystod y tymor cyntaf rhwng Mai a Medi 1972, ac mae'r prysurdeb cychwynnol hwnnw wedi aros dros y 25 mlynedd diwethaf.

Un o freuddwydion Hugh R. Jones fu cael atgyweirio'r olwyn ddŵr fawr. Roedd yr olwyn 50 troedfedd o uchder wedi bod yn segur ers 1925, a bu bron iddi gael ei gwerthu fel sgrap wedi i'r Chwarel gau. Mae'n debyg y byddai wedi ei cholli'n llwyr onibai am benderfyniad Mr Jones i'w hadfer. Cafwyd caniatâd yr Amgueddfa Genedlaethol i wario amser ac arian ar y gwaith yn ystod tymor distaw y gaeaf. Gosodwyd lleni haearn a 142 o gafnau dŵr arni. Roedd gweld y gwaith wedi'i orffen ychydig wythnosau cyn ei ben-blwydd yn 70 oed yn anrheg pen-blwydd gwerth chweil iddo. Mae'r olwyn, wrth gwrs, yn dal i droi yn hamddenol heddiw, yn union fel yr oedd nôl yn 1870 pan oedd yr olwyn fwyaf ym Mhrydain. Erbynheddiw mae'r olwyn yn un o brif atyniadau'r Amgueddfa, a bwriedir defnyddio peth o'r arian a ddaw i'r Amgueddfa at y gwaith o wella mynediad at yr olwyn.

Ymddeolodd Hugh R. Jones yn 70 oed wedi deuddeng mlynedd o wasanaeth yn yr Amgueddfa. Wrth edrych yn ôl ar y cyfnod, mae'n ddiolchgar am y gefnogaeth a'r parch a ddangoswyd gan yr Amgueddfa Genedlaethol a'r gweithwyr. Adeg ei ymddeoliad cafodd ei anrhydeddu mewn cyfarfod arbennig yn yr Oriel, a chyflwynwyd llyfr hardd yn croniclo ei yrfa yn y Chwarel. Cyflwynwyd anrhegion eraill yn cynnwys cloc a dau blac o'r chwarelwyr wrth eu gwaith gan bwyllgor Ras y Wyddfa, ac y mae'r cyfan yn cael lle amlwg yn ei gartref yn Bod Fair, Llanberis. Anrhydeddwyd ef wedyn pan dderbyniodd fedal y BEM ym mis Ionawr 1982 ar gyfrif ei wasanaeth dros 54 mlynedd yn y Chwarel a'r Amgueddfa.

Ers ei ymddeoliad mae wedi cadw cysylltiad â'r Amgueddfa. Mae'n falch bod yr Amgueddfa'n mynd o nerth i nerth wedi 25 mlynedd, ac yn llawenhau bod yma le bywiog, yn hytrach na chof-golofn i goffáu gweithwyr Chwarel Dinorwig.

Dyma benillion o waith Rol Williams ar achlysur cyflwyno medal y BEM i Hugh R. Jones:

*Gŵr teilwng o'i anrhydedd*
*Yw'r gŵr glodforwn ni,*
*Gŵr fynnodd fod y chwarel*
*Yn cadw ei hen fri.*
*Mor daer a chyson ei apêl*
*I warchod clod i'r oes a ddêl.*

*Y chwarel fu ei libart*
*O'r dyddiau cynnar pell,*
*A gwelodd ef sawl newid*
*Boed rai er drwg neu well.*
*Mae'r hen gymdeithas nawr ar chwâl*
*A dim ond atgof ddoe yn dâl.*

*Llongyfarch wnawn yn ddilys*
*Y gŵr diymffrost hwn*
*A roddodd hir wasanaeth*
*Heb rwgnach fawr, mi wn.*
*Ei 'Gyfri Mawr' ac 'extra stem'*
*Oedd iddo dderbyn — B.E.M.*


GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491
CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION
Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati
BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR
LLANRUG
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael
Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

# CROESAIR MEHEFIN

**Y BEDAIR YN 9 I LAWR YDI THEMA Y MIS HWN . . .**



**AR DRAWS**

1. Y leiaf o'r bedair, ond o ran arwynebedd yn unig (5)
3. Cynhebrwng tair annwyl? (9)
8. Ffordd o ddangos y bedair ar bapur (6)
10. Un sy'n erfyn am ei damaid (8)
12. Hudol! Fel pe tae'n cael ei ddenu at gae rygbi Castell Nedd (7)
14. Bag i Rod yn ymestyn allan (7)
16. Llu arfog sy'n amddiffyn 9 i lawr (9)
17. Yn un o'r bedair, ond nid o'r un tylwyth (5)
19. Gwynnu. Clywch, yna a wna'r adar (5)
20. Cerrig a ddefnyddir i adeiladu. O fainc lechi? (9)
23. Y stad o fod yn ymestyn ymhell (7)
24. Llys barn. Ai yno mae mab arall fy mam yn byw? (7)
27. Llyfrgell (8)
29. Heb ragfarn. Di-ddeud? (6)
30. Llwyd y to (6,1,2)
31. Coed bytholwyrdd â dail pigog (5)

**I LAWR**

1. Iaith 1 ar draws (7)
2. Llefain yn uchel. Cael bai pan fo un wedi ei gofleidio (5)
4. Yn ---- cyrbibion! Mae wedi malu (4)
5. Ymgyflwyniad o dymora gwael (6)
6. Rhwbio saim ar rhywbeth (3)
7. Gall crwt Nia fod yn feddwyn go iawn (7)
9. Yr ynysoedd hyn (7,4)
11. Camweddau. Toddi dau saer (11)
13. Twll yn y ddaear (4)
15. Yr uchaf o'r bedair ar y 8 ar draws (5)
18. Y dde neu'r chwith (4)
19. Carchariad neu ddiffyg anadl (7)
21. Yr agosaf o'r bedair i'r môr mawr (7)
22. Rhaff neu gortyn (6)
25. Yr Wyddor, a b c . . . . (5)
26. Dewi ydi enw un 1 ar draws (4)
28. Y bachgen sy'n byw ym mhabell yr Indiaid coch (3)

## RHODDION

**£10: Gwynne ac Ian Pierce, Llanrug. Teulu Bodafon, Waunfawr.**
**£5: Mrs Laura Pritchard, Rhydfadog, Deiniolen. Mrs Dorothy Williams, 23 Stryd Fawr, Llanberis.**
**£3: Arfon Phillips a'r teulu, Llanberis.**
**£2: Phyllis Jones, Dôl Elidir, Llanberis.**

## CAEATHRO

**Llongyfarchiadau.** Mae Catrin a Dewi Jones, Erw Wen, erbyn hyn yn rieni balch gyda mab, Hywel. Hefyd mae Norman a Gwenda Hughes, Llyngele, wedi priodi. Llongyfarchiadau i'r ddau gwpl.

**Gorau'r Sioe.** Llongyfarchiadau i John Jones, mab Hugh a Margaret Jones, 22 Glangwna. Enillodd ei geffyl dwyflwydd oed y wobr am y stalwyn gorau yn Sioe Llanbedr Pont Steffan yn ystod mis Ebrill.

# *Dyddiadur y Mis*

## MEHEFIN

| | |
|---|---|
| **3. Mawrth** | **LLANBERIS:** Capel Jerusalem — Y Gyfeillach yng nghwmni Griff a Pear o Ganada. |
| **4. Mercher** | **BETHEL:** Pwyllgor yr Eisteddfod Bentref yn y Neuadd Goffa am 7.30 o'r gloch |
| **5. Iau** | **DEINIOLEN:** Cyfarfod y Chwiorydd yng Nghapel Ebeneser am 2 o'r gloch |
| **8. Sul** | **PENISARWAUN:** Eglwys Santes Helen — Dydd Gweddi a Rhodd |
| **9. Llun** | **PENISARWAUN:** Yr Urdd — Mabolgampau'r Sir yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon |
| **10. Mawrth** | **LLANRUG:** Merched y Wawr — ymweliad a'r Pili Palas |
| **11. Mercher** | **YR ARDAL:** Merched y Wawr — Arddangosfa Celf a Chrefft y Rhanbarth yn Yr Aelwyd, Caernarfon. |
| **12. Iau** | **BRYNREFAIL:** Cymdeithas y Chwiorydd — Sgwrs gan Mr Robin Jones, Bethel |
| **13. Gwener** | **BETHEL:** Cymdeithas Rhieni'r Ysgol Gynradd yn cynnal Noson Alfresco yn yr Ysgol am 6.30 |
| **15. Sul** | **DINORWIG:** Eglwys Llandinorwig — Gŵyl Bregethu am 5 o'r gloch. Y Parchg Roger Donaldson, Caernarfon |
| **16. Llun** | **BRYNREFAIL:** Sefydliad y Merched — Yoga<br>**DEINIOLEN:** Merched y Wawr — Cyfarfod Blynyddol |
| **29. Sul** | **CYLCH DEINIOLEN:** Cyfarfod Cymdeithas y Beibl. Y pnawn yng Nghefnywaun a'r hwyr yn Libanus |

## ATEBION CROESAIR MAI

Derbyniwyd y nifer mwyaf ers misoedd o atebion i groesair mis Mai, ac yn eu mysg rhai cwbl gywir gan Mabel Parry, Porthmadog; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; G. Gill, Bangor; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Ceridwen Williams, Llanrug; Mary Davies, Waunfawr; Mair Evans, Caernarfon; Elfed Evans, Llanllechid; Megan Wyn Jones, Bangor; Nan Owen, Llanberis; Mair Foulkes, Penisarwaun; Jean Hughes Jones, Rhiw; Catherine A. Jones, Rhiw; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Rosemary Williams, Tregarth; ac un arall heb enw arno – pymtheg i gyd.

Ydyn nhw'n mynd yn haws 'dwch?

Ymdrech Nan Owen, 8 Rhes Efrog, Llanberis, ddaeth allan o'r het ac iddi hi yr â'r £5.

Nid gwleidyddol – nid cweit – ydi thema croesair y mis hwn. Gobeithio y gwnewch ei fwynhau.

Anfonwch eich atebion i gyrraedd Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn **17 Mehefin**, os gwelwch yn dda.



# Cricedwyr Clwb yr Efail, Ysgol Brynrefail




*Dyma'r hogia fu'n derbyn hyfforddiant criced eleni yng Nghlwb yr Efail, Ysgol Brynrefail*

# CHWARAEON

## DIM ANGEN BRASSO

Tymor cymharol llwm fu hi yn hanes ein timau pêl droed eleni. Y tîm mwyaf llwyddiannus oedd Llanberis ac ar un adeg roeddynt o fewn trwch blewyn i gipio pencampwriaeth Fitlock. Roeddynt yn gyson am ran helaethaf o'r tymor ond collwyd pwyntiau pwysig yn erbyn timau o rannau isaf y tabl. Gyda thîm profiadol Glantraeth yn symud i fyny i gynghrair P. A. Rowlands, yna bydd y Darans yn teimlo fod ganddynt siawns dda y tymor nesaf. Un gwendid efallai yw'r rhwyg mawr yn y safon rhwng cynghrair Pentec a'r Fitlock erbyn hyn ac o'r herwydd fe welir patrwm yn datblygu o gael 'dau glwb' y tu mewn i un clwb, sef yr hogiau sy'n chwarae i'r tîm cyntaf a'r hogia sy'n chwarae i'r ail dîm. Yn anffodus gwelaf y Pentec ar groesffordd ar hyn o bryd ac mae rhai clybiau yn trin y gynghrair hon fel 'cynghrair ieuenctid' ac yn ei defnyddio i feithrin chwaraewyr ifanc. Mae timau eraill yn hel timau o 'hen benau' gyda'r bwriad o ennill y bencampwriaeth ac o'r herwydd mae yna gryn wahaniaeth rhwng safon y timau ar y brig a'r rhai yng ngwaelodion yr adran — a hynny mewn cynghrair sydd heb fod yn eithriadol o gryf beth bynnag. Pryd, tybed, y gwelwn ni'r Junior Cup yn dod yn ôl gartref i'r cylchoedd hyn?

Mae arwyddion fod pethau yn gwella yn ara deg yn Llanrug. Bydd selogion Eithin Duon yn falch o'r safle yng nghanol tabl Cynghrair Gwynedd wedi tymor neu ddau digon llwm. Mae'n drueni meddwl fod Llanrug yn y tymhorau diwethaf yma wedi colli eu traddodiad o fod yn un o'r 'timau cwpan' llwyddiannus yn y fro. Rhaid, er y 'llymder', canmol Llanrug am y gwaith clodwiw a wneir gyda thimau ieuenctid.

Tra'n sôn am hyn rhaid canmol gweithgarwch pwyllgor pêl-droed Bethel. Mae cryn bwyslais yn cael ei roi yn y pentref — yn enwedig trwy'r pwls bach — i brynu cae eu hunain ac yna datblygu. Mae'r strwythur yn ei le yno a gobeithio gwelir y dydd pan geir tîm oedolion unwaith eto yn y pentref. Mae digon o chwaraewyr o'r pentref yn chwarae i dimau lleol.

Yn Neiniolen yn unig y bydd angen y Brasso. Daeth Cwpan John Smith Gwynedd yno wedi iddynt guro clwb Hotpoint o 1-0 ar faes y Morfa yng Nghonwy. Sgoriwyd yr unig gôl gan Eifion Jones a braf oedd i'r chwaraewr amryddawn hwn gipio'r gôl dyngedfennol i'w bentref genedigol. Mae yna gryn dipyn o ddawn yn nhîm Deiniolen ond ni allwn lai na chredu fod diffyg maint eu maes yn rhwystr iddynt. Does fawr o le yno a hawdd iawn yw i dimau eu cau i lawr. Y tueddiad felly yw chwarae gêm y bêl hir, a gêm anodd ei meistroli yw honno.

Cawn seibiant o ryw ddeufis rŵan nes bydd y 'cicio gwynt' yn ailddechrau! Pa newidiadau sydd ar y ffordd tybed, yntau a welwn ni y drefn arferol o chwaraewyr yn symud ar y 'musical chairs' rhwng y tri clwb lleol? Ydi hi'n amser i roi cyfle i'r ieuenctid? Amser a ddengys.

## OND NID FELLY I'R DARANS BACH



*Tîm y 'dwbl dwbl' o Lanberis.*


Bydd tîm dan 15 oed Llanberis â chryn ddathliad ar ddiwedd y tymor hwn. Rwy'n ysgrifennu'r llith yma ar ôl gwylio'r tîm yn curo eu archelynion Llanrug o 5-4 ar faes niwtral Caeathro.

Rhaid yw canmol sgiliau y ddau dîm ar faes llithrig ac anwastad. Roedd yn gêm gystadleuol iawn, gyda'r gôl hollbwysig i'r Darans yn dod o droed Rory O'Donnell wedi iddo wau ei ffordd heibio sawl amddiffynwr. Mae angen un pwynt ar Lanberis o'r ddwy gêm sy'n weddill i gipio'r bencampwriaeth.

Byddai cyflawni'r gamp yma yn rhoi'r dwbl iddynt gan iddynt, yn gynharach yn y mis, ennill cwpan y gynghrair drwy guro Cae Glyn o 4-1 ar faes Mountain Rangers. Y sgorwyr ar y noson honno oedd David Peters (2), Lee Hughes a Rory O'Donnell.

O ran diddordeb, os cyflawnir y dwbl yna bydd hyn yr ail waith i'r garfan hon gyflawni'r gamp. Gwnaed hynny pan oeddynt yn dîm dan 13 oed. Wel, Llanberis, beth am roi cyfle iddynt fynd am y trebl — gan fentro mewn tymor arall i gynghrair o dan 17 oed y gogledd. Yn sicr mae digon o ddoniau yn y tîm gydag ambell un eisoes wedi denu sylw clwb Caer.

Diolch hefyd i'r oedolion am eu cefnogaeth gyson i'r bechgyn. Braf yw cofnodi fod llond bws wedi mynd i faes Mountain Rangers i gefnogi. Roedd criw da wedi mynd i Gaeathro hefyd. Canmoliaeth hefyd i'r ddau dîm am eu hymddygiad ar y cae — yn wahanol iawn i ambell gêm yn yr un oedran a welais eleni.



*Hefin Roberts, a fu bron â chipio Pencampwriaeth Gogledd Cymru.*

Bu bron i Hefin Roberts, sy'n ddisgybl yn Ysgol Brynrefail, gipio pencampwriaeth tenis gogledd Cymru ar y penwythnos Mai 3-5, ond er ei ymedrechion caled, colli a wnaeth yn y gêm derfynol yn erbyn bachgen o'r Drenewydd sy'n rhannu ei enw, sef Hefin Bowen.

Yn y gêmau cyn y gêm derfynol bu'n rhaid i Hefin ddefnyddio'i holl ddoniau a'i egni i drechu David Jones o Wrecsam sy'n athletwr o fri ac eisoes yn chwarae pêl-droed i dîm dan 14 oed Manchester United.

Roedd Hefin yn falch o weld diwedd y gêm gyda sgôr o 6-3, 7-5. Ond yn y gêm derfynol methodd gael hyd i'w sgiliau yn ddigon cyson ac yn erbyn chwaraewr arall o fri bu iddo golli 6-2, 6-1. Roedd ei siom yn amlwg gan iddo drechu Hefin Bowen mewn gêm gynharach.

Ond mae'r tymor wedi dechrau'n dda i Hefin ac mae wedi dal ei afael ar bencamwriaeth Gwynedd o dan 14 oed, am yr ail flwyddyn yn olynol, ac wedi dod yn ail yn y bencampwriaeth o dan 16 oed am yr ail flwyddyn yn olynol. Ei gamp fwyaf hyd yn hyn oedd ennill pencampwriaeth agored Lerpwl o dan 14 oed pan y trechodd Gymro arall yn y gêm derfynol, sef Mathew Davies o'r Wyddgrug 6-2, 6-1. Hon oedd buddugoliaeth orau Hefin eleni gan iddo orfod ennill tair gêm yn y bencampwriaeth trwy chwarae yn erbyn chwaraewyr o radd uwch nag ef ei hun.

Wedi ennill dwy gêm derfynol allan o bedair, ac wedi cael 28 buddugoliaeth allan o 35 gêm ers dechrau'r flwyddyn, camp nesaf Hefin fydd cystadlu yn Wrecsam yng nghystadleuaeth 'Hard Courts' Cymru. Mae'n aelod o Glwb Tenis Caernarfon ac eisoes wedi helpu'r tîm i fuddugoliaeth ysgubol dros Glwb Bae Colwyn yng nghystadleuaeth genedlaethol timau 'Rover'.

## TLWS YR ECO 1997

Mae blwyddyn wedi hedfan heibio unwaith eto ac fe ddaeth yn amser inni drefnu un o uchafbwyntiau chwaraeon y fro, sef Tlws yr Eco. Mae'r fro'n dal i ymfalchïo yn llwyddiant tîm dan 12 oed Ysgol Brynrefail ac fe fydd yna, rwy'n siŵr, cryn edrych ymlaen am y gystadleuaeth. Bydd nifer o'r chwaraewyr yn ceisio dal llygaid y 'sgowtiaid' o Ysgol Brynrefail fydd yn bresennol er mwyn dethol y chwaraewyr talentog ar gyfer tîm y flwyddyn nesaf.

Fel arfer ar faes Ysgol Gynradd Llanrug y cynhelir y gystadleuaeth a hynny **nos Wener, 20 Mehefin.** 'Rydym yn ymwybodol fod teithiau ysgol yn cael eu trefnu yn ystod yr adeg hon o'r flwyddyn ac os yw'r dyddiad yn achosi tramgwydd i unrhyw ysgol neu bentref yna gadewch i ni wybod **rhag blaen.**

Rhennir y gystadleuaeth yn ddwy ran — i blant o dan 9 oed a phlant dan 11 oed. Fel na fydd yna unrhyw gamddealltwriaeth gellir dehongli yr oedrannau hyn fel cystadleuaeth i blant blynyddoedd 3 a 4 i'r rhai iau, a blynyddoedd 5 a 6 i'r rhai hŷn.

Bu cryn grafu pen ynglŷn â threfnu ffurf y gystadleuaeth am eleni. Y llynedd — am un rheswm yn unig — aeth y noson yn llawer rhy faith a'r rheswm am hynny oedd amharodrwydd rhai timau i benderfynu a oeddynt am gystadlu ai peidio. Ein bwriad eleni yw rhoi cyfle i bob plentyn, ond nid yw'n deg gorfod aillunio trefn y noson ar amrantiad oherwydd 'hwyr ddyfodiaid'. I osgoi'r trafferthion hyn mae'n rhaid i mi fod wedi derbyn eich ffurflenni cais **erbyn nos Wener, 13 Mehefin** (nid dyddiad anlwcus, gobeithio!) ac **ni dderbynnir unrhyw dîm i'r gystadleuaeth ar ôl y dyddiad yma.**

Codir tâl o £3 y tîm i wynebu costau y noson.

**TLWS ECO'R WYDDFA 1997**

**a gynhelir yn YSGOL GYNRADD LLANRUG**

**NOS WENER, 20 MEHEFIN 1997**

**i gychwyn am 6.00 p.m.**

**ENW'R TÎM** ______________________

**OEDRAN:** **DAN 9 OED** **DAN 11 OED**

**CYSYLLTYDD** ______________________

______________________

**RHIF FFÔN** ______________________

**i'w dychwelyd erbyn NOS WENER, 13 MEHEFIN 1997**